# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3**

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Medi 2017

Amser: 08.50

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod (08.50 - 09.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 7

(09.00 - 10.30) (Tudalennau 1 - 20)

Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Martin Swain, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisïau Tai, Llywodraeth Cymru

Neil Hemington, Pennaeth Cynllunio, Llywodraeth Cymru

## 3 Papur(au) i'w nodi

**3.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ynghylch Cymunedau yn Gyntaf - yr hyn a ddysgwyd**

(Tudalennau 21 - 22)

**3.2 Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ynghylch Cymunedau yn Gyntaf - yr hyn a ddysgwyd**

(Tudalennau 23 - 42)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

3.3 **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cymunedau yn Gyntaf - yr hyn a ddysgwyd**

(Tudalennau 43 - 45)

3.4 **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cymunedau yn Gyntaf - yr hyn a ddysgwyd**

(Tudalennau 46 - 49)

3.5 **Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol**

(Tudalennau 50 - 51)

3.6 **Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol**

(Tudalennau 52 - 53)

3.7 **Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol**

(Tudalennau 54 - 55)

3.8 **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol**

(Tudalennau 56 - 57)

3.9 **Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd ynghylch Gweithredu Deddf Cymru 2017**

(Tudalen 58)

3.10 **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)**

(Tudalennau 59 - 62)

3.11 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(Tudalen 63)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Egwyl (10.30 - 10.45)

## 5 Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru: trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2

(10.45 - 11.15)

## 6 Trafod y dull o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

(11.15 - 11.30)

## 7 Trafod yr adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

(11.30 - 11.45)

(Tudalennau 64 - 65)

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ddiogelwch tân mewn perthynas â blociau uchel o fflatiau

## Tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifenyddion y Cabinet dros Gymunedau a Phlant a'r Amgylchedd a Materion Gwledig

Mae'r papur tystiolaeth hwn yn nodi rhai o'r prif ddatblygiadau, camau gweithredu, ac ystyriaethau ers trychineb ofnadwy Tŵr Grenfell.

### 1 Nodi adeiladau, meithrin cysylltiadau a datblygu canllawiau

Mae maint, cymhlethdod amlwg a natur cyfnewidiol y gweithgareddau yn dilyn y tân yn Nhŵr Grenfell wedi pwysleisio pa mor hollbwysig yw rhannu gwybodaeth effeithiol a chyfathrebu'n effeithiol rhwng gweinyddiaethau, asiantaethau ac wrth gwrs, denantiaid.

Ar y dechrau, roedd cael llif effeithiol o wybodaeth rhwng Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) a Llywodraeth Cymru wedi profi i fod yn heriol. Datblygodd hynny i fod hyd yn oed yn fwy cymhleth oherwydd i asiantaethau eraill ddod yn rhan o'r broses, er enghraifft y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE). Roedd fel petai natur y sefyllfa a chyflymdra'r ffordd yr oedd yr amgylchiadau yn datblygu yn rhoi straen ar adnoddau ac wedi arwain at rai anawsterau yn gynnar yn y broses. Ond, fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae'r dull cyfathrebu rhwng gweinyddiaethau (ac asiantaethau eraill hefyd) wedi datblygu i fod yn fwy rhwydd ac effeithiol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn cymryd rhan mewn grwpiau gweinidogol sy'n cael eu cadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, ac mae cysylltiad wythnosol fan lleiaf ar lefel swyddogol, gan gynnwys y ffaith bod cysylltiadau allweddol wedi'u sefydlu, a gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd mwy amserol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r maes yn cael gwybod popeth sydd ei angen, gan rannu gwybodaeth yn eang, er enghraifft drwy'r ffyrdd canlynol:

- Datganiadau Ysgrifenedig rheolaidd at Aelodau'r Cynulliad drwy gydol trefniant profi'r BRE;
- Tudalen ar wefan Llywodraeth Cymru ar gyfer Cwestiynau Cyffredin: http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/grenfell-tower-faqs/?skip=1&lang=cy . Mae'r dudalen hon wedi bod yn cael ei diweddaru ddwy waith yr wythnos;
- Dull cyfathrebu â'r cyfryngau i 'chwalu'r chwedlau', gan gynnwys rhoi gwybod y newyddion diweddaraf yn fanwl i lywodraeth leol;
- Telegynadledda dyddiol ar y dechrau, sydd bellach yn digwydd ddwy waith yr wythnos, â phartneriaid allweddol, gan gynnwys partneriaid yn y Trydydd Sector ac yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Meithrin Cysylltiadau â'r Sector Preifat

Mae cael hyd i'r darlun llawn a chywir mewn perthynas ag adeiladau preswyl uchel yn y sector preifat wedi profi i fod yn anodd. Fel sy'n wir mewn mannau eraill yn y DU, mae'n anodd cadarnhau, er enghraifft, nifer a lleoliad adeiladau preswyl uchel, manylion awdurdodol am berchenogion, gwybodaeth gywir am asiantau rheoli neu reolwyr blociau, a bodolaeth adeiladau defnydd cymysg. Rydym wedi cydweithio'n agos â llywodraeth leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth ymdrechu'n barhaus i gael gwybod am yr holl adeiladau preswyl uchel yng Nghymru sydd o dan berchenogaeth breifat, gan gynnwys llety myfyrwyr sydd o dan berchenogaeth breifat. Fodd bynnag, wrth edrych ymlaen, byddwn yn cydweithio â phartneriaid i sicrhau bod system fwy effeithiol yn cael ei datblygu i sicrhau bod gennym y rhestr lawn ddiweddaraf o adeiladau uchel, gan gynnwys manylion am y perchenogion a/neu reolwyr cysylltiedig, ar draws pob sector.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, rydym wedi dod o hyd i rydd-ddeiliaid neu asiantau rheoli fwy na 80 o flociau uchel o fflatiau sydd o dan berchenogaeth breifat. Rydym wedi ysgrifennu atynt yn pennu'r camau y dylent eu cymryd i ganfod a phrofi cladin o ddeunydd cyfansawdd alwminiwm (ACE), a'r mesurau rhagofalus priodol y mae angen iddynt eu cymryd os yw ACE yn bresennol. Rydym hefyd wedi atgoffa landlordiaid/asiantau rheoli fod angen iddynt gynnal asesiadau risg safonol a diogelu rhag tân yn unol â chyngor y Llywodraeth a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Mae cyngor a chyfarwyddyd pellach wedi'u darparu hefyd gan gyrff gynrychioliadol perthnasol, gan gynnwys, er enghraifft, Cymdeithas Asiantau Rheoli Preswyl, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl, a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Llety Myfyrwyr (Addysg Uwch)

Rydym yn parhau i gael hyd i fanylion cywir am lety mewn adeiladau uchel i fyfyrwyr, fel ein bod ni a'r myfyrwyr yn gallu cael ein sicrhau am ddiogelwch a llesiant y myfyrwyr hynny. Mae myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ar y cyd â thenantiaid eraill, yn preswylio mewn gwahanol fathau o lety, sy'n cael eu perchen neu eu rheoli gan ddarparwyr gwahanol. Rydym wedi gweithio ar y cyd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i gasglu gwybodaeth a fydd yn helpu i ganfod yr holl adeiladau preswyl uchel y mae myfyrwyr yn byw ynddynt. Fodd bynnag, nid yw prifysgolion bob amser yn gwybod beth yw cyfeiriad eu myfyrwyr yn ystod y tymor, nac ychwaith yn cael gwybod am unrhyw gyfeiriadau newydd. Fel canlyniad, mae cael gwybod yn fanwl am lety myfyrwyr sydd mewn adeiladau uchel neu am lety sy'n cael ei ddefnyddio gan fyfyrwyr ar draws pob sector yn fater cymhleth. Mae prifysgolion eisoes wedi darparu gwybodaeth am adeiladau y maent yn berchen arnynt, neu'n dod o dan drefniadau contract, ac maent wedi cynorthwyo lle bo hynny'n bosibl wrth ganfod llety mewn adeiladau uchel yn y sector preifat.

Os yw'r sefydliad yn berchen ar adeiladau preswyl, neu os bydd ganddynt berthynas gontractiol â darparwyr allanol, gofynnwyd iddynt gynnal adolygiad

o'r adeiladau hynny; yn enwedig adeiladau uchel sydd â chladin ACM. Nid oes unrhyw adeiladau o'r fath wedi'u nodi. O ran darparwyr yn y sector preifat, mae CCAUC hefyd wedi gofyn i sefydliadau nodi unrhyw lety mewn adeiladau uchel sy'n cael ei ddefnyddio gan eu myfyrwyr (er mwyn gallu gwybod am berchenogion neu asiantau rheoli a chysylltu â nhw, a gallu cadarnhau manylion am amlen allanol eu hadeiladau). Mae perchenogion neu asiantwyr yn cael defnyddio'r un profion sgrinio, ac yn cael hyd i'r un canlyniadau ar gyfer profion system gyfan, gan gynnwys yr un cyngor a chyfarwyddyd, â landlordiaid tai cymdeithasol.

Mae CCAUC yn parhau i fonitro cyfarwyddyd a gwybodaeth wrth iddynt ddod ar gael, ac maent yn sicrhau bod sefydliadau a Llywodraeth Cymru yn cael gwybod y newyddion diweddaraf.

Cefnogi Landlordiaid

Yn dilyn y profi cychwynnol a gynhaliwyd gan BRE, a'r profion dilynol ar raddfa eang a gynhaliwyd ganddynt, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â landlordiaid, yn y sectorau cymdeithasol a phreifat. Ar ôl cwblhau profion BRE ar raddfa eang ac adrodd amdanynt, cafodd canllawiau eu cynhyrchu gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n gysylltiedig â'r saith prawf.

Mae'r canllawiau hyn yn ategu canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol a gynhyrchwyd ar gyfer y sector tai cymdeithasol ar ddiogelu rhag tân mewn blociau preswyl uchel o fflatiau a adeiladwyd yn bwrpasol. Byddwn yn parhau i feithrin cysylltiadau â landlordiaid ar draws pob sector er mwyn penderfynu a fyddai cael rhagor o ganllawiau sy'n benodol i Gymru yn fuddiol.

Hyd yma, mae canlyniadau'r profion ar raddfa eang sydd 'wedi methu' yn cyd-fynd â'r deunydd cladin ar 11 o adeiladau a nodwyd yng Nghymru. Rydym wedi dilyn dull gwaith achos wrth gydweithredu â landlordiaid (mae un sefydliad yn y sector tai cymdeithasol yn cyfrif am dri o'r adeiladau), a/neu'r asiant rheoli (mae un asiant rheoli ar gyfer yr wyth adeilad yn y sector preifat mewn dau ddatblygiad). Mae timau gwaith achos, sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru a enwyd, yn cydweithio'n agos â landlordiaid, asiantau rheoli a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, er mwyn sicrhau bod partïon yn cael digon o wybodaeth, ac yn ymwybodol o ganllawiau Panel Arbenigwyr y DU (yr ydym wedi'u mabwysiadu), ac o arferion newydd. Os yw'n briodol, bydd y timau'n monitro unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd. Byddwn yn bwrw ymlaen â dull tebyg ar gyfer unrhyw achosion eraill sy'n codi.

Mae cael cyllid ar gyfer gwaith adfer yn aros yn fater i landlordiaid; ond, rydym yn ymwybodol o effaith bosibl unrhyw gyllid ychwanegol newydd gan Lywodraeth y DU a'r posibiliadau o ran cyllid yn sgil symiau canlyniadol Barnett a allai godi yn y dyfodol.

Cyngor i Denantiaid

Mae gwneud yn siŵr bod tenantiaid yn cael y cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf yn hollbwysig ac yn rhoi sicrwydd hefyd. Fodd bynnag, rhaid

taro'r man canol rhwng rhoi cyngor clir a chynhwysfawr ynghylch risgiau tân, ac achosi gofid dianghenraid (yn enwedig yn sgil trychineb eithriadol fel un Tŵr Grenfell). Mae rhoi cyngor o'r fath, gan gynnwys unrhyw ddiweddariad neu newidiadau, yn fater i'r landlordiaid a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn y bôn, yn hytrach nag i lywodraeth. Yn gyffredinol, rydym yn fodlon bod y cyngor wedi bod yn gywir, yn realistig ac yn bwyllog. Mae enghreifftiau ymarferol o feithrin cysylltiadau â thenantiaid wedi creu argraff dda arnom, a byddwn yn ystyried sut a phryd y gallai'r rhain gael eu rhannu.

Llais y Tenant

O ran sicrhau llais cynrychioliadol, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol ar hyn o bryd i Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS Cymru) - y corff cynrychioladol ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. TPAS Cymru sydd yn y sefyllfa orau i arwain ar eiriolaeth tenantiaid, yn ychwanegol at gynnig cymorth i denantiaid. Fel corff cynrychioladol cenedlaethol mae eu cylch gwaith yn cynnwys lobïo ar ran eu haelodau.

Mae rhaglen waith TPAS Cymru ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn cynnwys cynhyrchu cyngor a chyfarwyddyd i ddatblygu a hyrwyddo cyfranogi at y Sector Rhentu Prefiat ar y cyd â sefydliadau partner, gan gynnwys Rhentu Doeth Cymru, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru a Shelter Cymru. Mae TPAS Cymru hefyd yn aelod o Undeb Rhyngwladol y Tenantiaid; mae cynrychiolydd o TPAS Cymru yn rhan o Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tân.

## 2. Fframwaith Statudol

Gorchymyn Diogelwch Tân

*Personau Cyfrifol*

O dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, mae'n ofynnol i 'bersonau cyfrifol' gymryd camau i sicrhau diogelwch tân mewn adeiladau annomestig. Mae'r person cyfrifol yn amrywio yn ôl y math o adeilad sydd dan sylw, ac mae'n bosibl cael mwy nag un person cyfrifol ar gyfer unrhyw adeilad penodol.

Ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn yn mabwysiadu agwedd 'gyffredinol' sy'n cynnwys pob adeilad annomestig, o siopau cornel i flociau o fflatiau i ffatrïoedd, yn ôl yr un telerau ar y cyfan.

Mae angen i bersonau cyfrifol allu cyflawni'r dyletswyddau y mae'r Gorchymyn yn eu gosod, gan y byddai diffyg gwybodaeth neu gymhwysedd mewn perthynas â diogelwch tân yn gyffredinol, ac â'r Gorchymyn yn benodol, yn amlwg yn rhoi pobl mewn perygl. O ystyried hynny, rydym yn cytuno y dylid

rhoi mwy o ystyriaeth i'r gofynion presennol ar gyfer cymhwysedd o ran diogelwch tân sy'n cael eu rhoi ar unigolion o dan y Gorchymyn.

Gallai gofyniad mwy penodol o ran cymhwysedd fod yn fwy addas mewn perthynas â threfniadau ar gyfer adeiladau sy'n risg uchel, er enghraifft blociau uchel o fflatiau (ond hefyd gweithfeydd ailgylchu ac ysbytai). Mae'n bosibl y gallai dilyn yr un gofyniad ar gyfer ffermydd bach neu swyddfeydd un ystafell greu beichiau anghymesur, a phrin iawn fyddai'r effaith ar y risg isel o dân ar safleoedd o'r fath.

Cydnabyddir hefyd ei bod yn anodd i Wasanaethau Tân ac Achub (ac eraill) ar hyn o bryd *nodi* personau cyfrifol o dan y Gorchymyn. Mae ehangder y Gorchymyn yn golygu y gallai unrhyw un, o unig fasnachwr i landlord absennol rhyngwladol, fod yn berson cyfrifol. Mae'r sefyllfa'n arbennig o gymhleth ar gyfer adeiladau defnydd cymysg neu dan berchenogaeth, a byddai mwy o eglurhad a manyldeb yn sicr yn fuddiol.

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod achos mewn egwyddor i adolygu Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer gan Weinidogion Cymru i wneud unrhyw newidiadau i'r Gorchymyn. Wrth lunio'r sefyllfa ar gyfer y dyfodol, byddwn hefyd yn dymuno rhoi sylw i'r argymhellion sy'n codi yn sgil yr adolygiad annibynnol o reoliadau adeiladau a diogelwch tân. Byddwn yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU wrth gwrs, o ran rhoi unrhyw ganfyddiadau ar waith ac ystyried eu goblygiadau mewn perthynas â'r Gorchymyn.

*Awdurdodau Tân ac Achub a Chyrff Rheoli Adeiladu*

Mae dyletswydd statudol eisoes yn bodoli fel rhan o'r Gorchymyn Diogelwch Tân ar gyfer Cyrff Rheoli Adeiladu (Awdurdodau Lleol ac Arolygwyr Cymeradwy) i gael cyngor gan yr Awdurdod Tân ac Achub, pan fydd yr adeilad yn dod o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).

Mae'r ddyletswydd honno'n rhoi'r hawl i'r Awdurdod Tân ac Achub gysylltu â'r Corff Rheoli Adeiladu ynglŷn â gofynion diogelwch tân yr adeilad cyn, yn ystod ac yn dilyn camau'r gwaith adeiladu. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth hanfodol y bydd ei hangen ar yr Awdurdod Tân ac Achub yn dilyn cwblhau a meddiannu'r adeilad, er mwyn arfer eu dyletswydd i orfodi'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).

*Y posibilrwydd o gael Prif Awdurdod Tân ar gyfer cynnal Arolygiadau Diogelwch Tân*

Mae'n amlwg ei bod yn bwysig inni sicrhau bod safonau diogelwch tân priodol ar gael ym mhob bloc uchel o fflatiau, ond nid ydym o'r farn y byddai pennu Prif Awdurdod Tân o reidrwydd yn fuddiol. Mae ein tri gwasanaeth yn cydweithio'n agos ar nifer o faterion, gan gynnwys arolygiadau diogelwch tân,

a byddwn yn trafod â nhw sut y gall y trefniadau hyn gael eu gwella ymhellach. Fodd bynnag, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn dibynnu'n helaeth ar wybodaeth leol am safleoedd a landlordiaid. Mae'n bosibl y byddai ffordd o weithio sy'n rhy gaeth yn peryglu hynny. Ar lefel ymarferol, byddai unrhyw landlord sy'n berchen ar adeiladau uchel a rhai isel y tu allan i ardal Prif Awdurdod Tân ac Achub yn gorfod delio â dau Awdurdod Tân ac Achub yn lle un. Er enghraifft, pe byddai Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cael ei bennu'n brif awdurdod, yna byddai rhaid i Gyngor Sir y Fflint ymdrin â'r achos mewn perthynas â blociau uchel o fflatiau, a byddai angen i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymdrin â'r gweddill o'r ystad.

Rheoliadau Adeiladu

Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu adolygiad annibynnol o reoliadau adeiladu a diogelwch tân. I weld cylch gorchwyl yr adolygiad, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/independent-review-of-building-regulations-and-fire-safety-publication-of-terms-of-reference

Mae'r cylch gorchwyl yn dangos y bydd yr adolygiad yn archwilio'r system reoleiddio bresennol, ac, ar sail tystiolaeth, yn gwneud argymhellion sy'n sicrhau bod y system reoleiddio'n addas i'r diben, gan roi sylw penodol i adeiladau preswyl uchel sydd ag amlfeddiannaeth.

Bydd Ysgrifenyddion y Cabinet yn cyfarfod â chadeirydd yr adolygiad, sef y Fonesig Judith Hackitt, i drafod yr ymrwymiad a'r angen i sicrhau bod canlyniadau'r adolygiad yn cael eu rhannu ar draws weinyddiaethau. Gallai'r canlyniadau gael goblygiadau ar gyfer y systemau rheoleiddio yn Nghymru, ac felly, bydd cynnal pethynas agos rhwng ein llywodraethau drwy gydol yr adolygiad yn hanfodol. I'r perwyl hwnnw, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol wedi cadarnhau y byddai'n croesawu cydweithrediad agos â Llywodraeth Cymru ar waith sy'n ymwneud â'r adolygiad annibynnol o reoliadau adeiladu a diogelwch tân yn gyffredinol.

Deallwn y bydd yr adolygiad yn cyflwyno adroddiad interim yn ystod hydref 2017, ac adroddiad terfynol yn ystod gwanwyn 2018. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithredu'n gyflym ar unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwn. O'n rhan ni, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw argymhellion yn llawn.

### 3. Mesurau Ymarferol

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyrwyddo diogelu'r cartref rhag tân yn hanfodol. Gwyddom fod mwy o danau domestig yn digwydd fel canlyniad i ddamweiniau yn hytrach na chynhyrchion neu safleoedd anniogel. Mae cynghori pobl ar sut i aros yn ddiogel, felly, o leiaf yr un mor bwysig â chydymffurfio â safonau adeiladu neu safonau cynhyrchion.

Gan hynny, mae pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnig archwiliadau am ddim i asesu diogelwch y cartref rhag tân. Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr archwiliadau. Mae'r archwiliad yn cynnwys asesiad

cynhwysfawr o'r risgiau tân, cyngor ar sut i'w lleihau, ac offer diogelwch priodol, fel larymau mwg neu ddillad gwely anhylosg. Mae'r Gwasanaethau'n mynd ati i hyrwyddo'r rhaglen drwy nifer o ddulliau, ac maent yn gweithredu ar sail atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill, fel Awdurdodau Lleol, cymdeithasau tai, sefydliadau yn y trydydd sector a'r heddlu. Ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, pan gafodd y cyfrifoldeb ar gyfer y maes hwn ei drosglwyddo, mae'r tri Gwasanaeth wedi cwblhau dros 780,000 o archwiliadau; er mai ail ymweliad yw rhai o'r rheini, mae'r nifer yn cyfateb i 55% o'r holl anheddau yng Nghymru. Er nad oes data cymharol ar gael ar gyfer awdurdodaethau eraill, mae'r ganran honno'n amlwg yn sylweddol o ystyried nad oes neb yn cael ei orfodi i gael archwiliad – ac mae risg isel o dân mewn nifer o gartrefi, ac felly mae llai o angen i gynnal archwiliad ynddynt. Mae'r Gwasanaethau hefyd yn cynnig llawer o gyngor cyffredinol mewn perthynas â diogelwch rhag tân, gan gynnwys drwy ymgyrchoedd y wasg, digwyddiadau cyhoeddus, ysgolion, sefydliadau'r trydydd sector a'r cyfryngau cymdeithasol. Nid ydym o'r farn bod unrhyw broblem benodol o ran y gwaith hwn.

<u>Mesurau Ataliol Ymarferol</u>

Mae cyfarwyddyd arbenigol yn annog landlordiaid i gael cyngor arbenigol, fel sy'n briodol. Yn fwy cyffredinol, mae mesurau ataliol yn debygol o atal tân rhag lledu, os ydynt yn cael eu rhoi ar waith.

*Adrannu*

Mae adrannu effeithiol yn hanfodol i atal y tân rhag lledu. Os bydd tân yn lledaenu y tu hwnt i adraniad y tybiwyd sy'n ddiogel (e.e. fflat neu ystafell mewn gwesty), yna, fel a ddigwyddodd yn Nhŵr Grenfell, gall diogelwch yr adeilad cyfan fod dan fygythiad. Gall fod yn arbennig o anodd i ddiffodd tân pan fydd yn lledu i wagleoedd a phibelli mewnol.

Gall arolygiadau'r Gwasanaethau Tân ac Achub gadarnhau bod drysau tân a mesurau tebyg yn bresennol mewn ardaloedd cymunol. Mae hynny'n cynnwys drysau ffrynt fflatiau yn gyffredinol; os ydynt yn rhan o'r ffin neu'r ardal gymunol, maent yn dod o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân. Fodd bynnag, er y gall y Gwasanaeth ddwyn achos yn erbyn y person cyfrifol mewn achosion o'r fath, nid oes gan y Gwasanaeth awdurdodaeth dros breswylwyr preifat – felly mae newid drws ffrynt fflat i ddrws tân yn aml yn mynd yn fater rhwng y landlord a'r tenant (neu'r rhydd-ddeiliad a'r lesddeiliad), ac mae'n bosibl na fydd yn fater sy'n cael ei ddatrys yn gyflym, neu o gwbl. Nid oes ateb hawdd i hyn o dan y Gorchymyn fel y mae ar hyn o bryd, sy'n pwysleisio'r achos dros gynnal adolygiad.

Fodd bynnag, ni all y Gwasanaethau Tân ac Achub arolygu mân addasiadau, fel turio trwy waliau o fewn neu rhwng fflatiau. Byddai'n well pe byddai Awdurdodau Tai Lleol yn ymdrin â hynny, gan fod y prif gyfrifoldeb ganddynt i asesu anheddau preswyl mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch. Byddai hynny'n cynnwys pryderon mewn perthynas â diogelu'r adraniadau.

*Systemau Chwistrellu*

Mae gosod systemau chwistrellu gan landlordiaid neu ddatblygwyr yn cael ei gydnabod fel gweithred sy'n cyfranogi at fesurau diogelwch tân effeithiol. Ers mis Ionawr 2016, mae'n ofynnol o dan y Rheoliadau Adeiladu i gartrefi newydd a rhai sydd wedi'u haddasu gael system chwistrellu.

Rydym yn dechrau gweld bod cadwyn gyflenwi o systemau chwistrellu preswyl yn cael ei datblygu i fodloni'r gofynion newydd. I gychwyn, mae'r gweithgarwch wedi'i seilio ar y diwydiant ar gyfer systemau chwistrellu sydd eisoes yn bodoli.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod NCH a Dinas a Sir Abertawe yn bwriadau ôl-osod systemau chwistrellu mewn adeiladau preswyl sydd wedi'u heffeithio gan ganlyniadau profion cychwynnol a'r rhai ar raddfa eang a gynhaliwyd gan BRE.

Yn achos gweithgareddau ôl-weithredol i adfer adeilad, y landlordiaid a/neu'r datblygwyr sy'n gyfrifol am y mesurau.

<u>Effaith y llwyth gwynt ar inswleiddiad wal allanol</u>

Fel mater ar wahân, rydym yn ymwybodol o adroddiad Bwrdd Achredu Prydain, sy'n nodi pryderon ynghylch y modd y mae asesu'r llwyth gwynt yn effeithio ar inswleiddiad y wal allanol, yn enwedig mewn adeiladau uchel. Rydym wedi ysgrifennu at gyrff rheoli adeiladu a chynlluniau hunanardystio personau cymwys i'w hatgoffa am y gofynion mewn perthynas â diogelwch strwythur o dan y rheoliadau adeiladu, a'r angen i fod ar eu gwyliadwraeth wrth graffu ar amcangyfrifon strwythurol. Mae'r adroddiad yn dilyn nifer o achosion lle datgysylltodd paneli inswleiddio'r wal allanol oddi wrth flociau o fflatiau yn Lloegr ac yn yr Alban.

Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Sefydlog ar Ddiogelwch Strwythur er mwyn cael eu cyngor. Byddwn yn cysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â hyn ac ynglŷn ag unrhyw gyngor pellach, er mwyn cynllunio ein camau nesaf.

<u>Paneli mawr ar adeiladau</u>

Yn gynharach yn ystod yr haf roedd adroddiadau yn y wasg am flociau preswyl o fflatiau ym Mwrdeistref Southwark Llundain. Roedd y rhain wedi cael eu gwagio ac roedd y cyflenwadau nwy wedi eu torri oherwydd bod pryderon ynghylch p'un a oedd y gwaith cryfhau angenrheidiol wedi ei wneud ai peidio. Nodwyd bod angen gwneud y gwaith hwn yn sgil trychineb Ronan Point yn 1968, wedi i ffrwydrad nwy achosi i floc gwympo'n rhannol. Roedd swyddogion wedi cysylltu â Llywodraeth y DU ymlaen llaw i wneud yn siŵr nad oedd unrhyw adeiladau wedi'u nodi yn dilyn trychineb Ronan Point a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru. Cadarnhawyd bod hynny'n wir.

Cawsom wybod yn ddiweddar bod yr ymchwiliad i adeiladau Southwark wedi codi pryderon ehangach. Roedd y pryderon hynny'n ymwneud â chryfder cyffredinol adeiladau sy'n cael eu hadeiladu â phaneli mawr, a hefyd y ffaith bod paneli o'r fath yn gallu tynnu oddi wrth ei gilydd, o achos bod cyfansoddiad y concrit yn ehangu ac yn crebachu, sy'n gadael bylchau a all amharu ar adraniadau tân yr adeiladau hyn.

Mae swyddogion wedi ysgrifennu at Awdurdodau Lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan ofyn iddynt yn y lle cyntaf i nodi unrhyw adeiladau sy'n defnyddio paneli o'r fath a chynnig gwybodaeth bellach amdanynt. Rydym yn aros am gyfarwyddyd ychwanegol gan y Pwyllgor Sefydlog ar Ddiogelwch Strwythur cyn bwrw ymlaen ymhellach.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â phartneriaid ar draws y sectorau ac â Llywodraeth y DU, wrth inni geisio sicrhau bod yr ystod o faterion presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn a bod camau priodol yn cael eu cymryd.

**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-26-17 Papur 2 / Paper 2

Ein cyf/Our ref: MA-(P)/KS/2442/17

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

17 Gorffennaf 2017

Annwyl John

Diolch am eich llythyr yn dilyn ymddangosiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Yn ystod ei ymddangosiad, deallaf fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyfeirio at ein dull newydd o sicrhau ffyniant i bawb, gan gynnwys gweithio ar draws y Cabinet mewn perthynas â thlodi plant a chynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer tlodi.

Un o nodau allweddol Symud Cymru Ymlaen (2016-2021) yw sicrhau ffyniant i bawb, gyda'r ddealltwriaeth bod ffyniant yn rhoi sicrwydd i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'n rhaid i'r gwaith o gefnogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ffyniannus fod yn sail i bopeth a wnawn ac mae cefnogi twf economaidd a swyddi sy'n talu cyflogau da sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau yn nodwedd sy'n gyffredin i holl waith y llywodraeth. Mae angen dull llywodraeth gyfan o sicrhau twf economaidd sy'n canolbwyntio ar greu a denu swyddi o ansawdd uchel ac ymateb i anghenion rhanbarthol. Bydd gwaith Tasglu'r Cymoedd a chamau gweithredu i gefnogi cydnerthedd cymunedol ar draws Cymru yn helpu i lywio sut rydym yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau cryf er mwyn lleihau effeithiau tlodi. Fodd bynnag, mae angen inni ystyried sut y gallwn ddefnyddio pob un o'n gwasanaethau craidd a'n cyllidebau ar draws y Llywodraeth gyfan i helpu i gyflawni'r effeithiau rydym yn dymuno eu gweld.

Nid yw ffyniant yn ymwneud â chyfoeth materol yn unig. Mae'n ymwneud â phob un ohonom yn cael bywyd o ansawdd da, ac yn byw mewn cymunedau diogel a chefnogol. Rwyf yn arwain y dull o gydlynu ffyniant ar draws y Llywodraeth, fodd bynnag, mae hwn wedi'i ymgorffori yn nodau pob cydweithiwr sy'n aelod o'r cabinet ar draws pob Adran. Felly, rwy'n gweithio'n agos â chydweithwyr y Cabinet i geisio sicrhau bod y dull hwn wrth wraidd popeth a wnawn, sy'n rhoi ffocws cryf ar gyflawni. Ar hyn o bryd, ni fyddai'n ddoeth cyhoeddi cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer tlodi sydd wedi'i deilwra'n benodol. Yn hytrach, bydd y strategaeth genedlaethol arfaethedig yn sail i'r ymrwymiadau a nodir yn Symud Cymru Ymlaen ac yn ffordd o gyflawni ein nod o sicrhau ffyniant i bawb.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar hyn o bryd rwy’n ystyried y dull priodol o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac rwyf wedi comisiynu fy swyddogion i adolygu grwpiau a fforymau allweddol ar draws y llywodraeth a all chwarae rôl o ran sicrhau bod hon yn thema ganolog ym mhopeth a wnawn.

Bydd Mesur Plant a Theuluoedd Cymru (Cymru) 2010 yn parhau i ddarparu’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trechu tlodi yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mae’n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus a enwyd i osod amcanion ar gyfer mynd i’r afael â thlodi plant. Fel rhan o’r Mesur hwn, mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth tlodi plant a chynnal adolygiad o gynnydd bob tair blynedd. Cyhoeddwyd y Strategaeth Tlodi Plant ddiweddaraf yn 2015 sy’n nodi pum amcan strategol ar gyfer mynd i’r afael â thlodi plant a gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel yng Nghymru. Ar 13 Rhagfyr, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant ein hadroddiad statudol diweddaraf ar gynnydd. Byddwn yn parhau i hyrwyddo cynnydd ar ein hamcanion strategol mewn perthynas â thlodi plant ar draws y Llywodraeth.

Gan fod ein dull o sicrhau ffyniant i bawb yn drawsbynciol, croesawaf ddull rhyng-gysylltiedig y Pwyllgor, gan gynnwys eich ffocws ar sicrhau bod yr economi yn gweithio i bobl ar incwm isel. Edrychaf ymlaen at glywed argymhellion y Pwyllgor ar yr agenda ffyniant ehangach.

Yr eiddoch yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De – *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol***

**DYDDIAD** **20 Gorffennaf 2017**

**GAN** **Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**

Heddiw, bydd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De yn cyhoeddi ei gynllun gweithredu lefel uchel, *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*.

Mae'r cynllun yn amlinellu blaenoriaethau'r tasglu ar gyfer y dyfodol, yn seiliedig ar waith ymgysylltu eang gyda phobl sy'n byw a gweithio yn y Cymoedd. Mae'n seiliedig hefyd ar dystiolaeth y mae'r tasglu wedi'i chasglu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar dair blaenoriaeth allweddol:

- Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni
- Gwell gwasanaethau cyhoeddus
- Y gymuned leol

Gweledigaeth y tasglu yw cau'r bwlch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru erbyn 2021. Gwneir hyn trwy helpu 7,000 o bobl ychwanegol i ddod o hyd i waith a chreu miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy yn y Cymoedd.

Mae *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn amlinellu pob math o gamau gweithredu i gyflawni'r nod hwn, gan gynnwys creu chwe safle strategol newydd mewn ardaloedd penodol ledled y Cymoedd lle byddwn yn ceisio canolbwyntio gwariant i roi cyfle i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. Bydd y tasglu'n gweithio gyda chymunedau lleol ac awdurdodau lleol i ddatblygu'r canolfannau hyn ymhellach i sicrhau bod eu ffocws yn adlewyrchu'r cyfleoedd ym mhob ardal.

Dyma'r chwe safle:

- Pontypridd/Trefforest, yn canolbwyntio ar ddatblygiadau preswyl, swyddfa, diwydiannol a manwerthu
- Caerffili/Ystrad Mynach, yn canolbwyntio ar ddatblygiadau preswyl, swyddfa a diwydiannol

- Cwmbrân, yn canolbwyntio ar ddatblygiadau swyddfa, diwydiannol a phreswyl
- Merthyr Tudful, yn canolbwyntio ar ddatblygiadau swyddfa, diwydiannol a phreswyl
- Castell-nedd, yn canolbwyntio ar ddatblygiadau diwydiannol, preswyl, digidol ac ynni
- Glyn Ebwy, yn canolbwyntio ar barc busnes modurol newydd

Byddwn yn ceisio sicrhau hefyd fod mwy o swyddi sector cyhoeddus yn cael eu hadleoli yng Nghymoedd y De, gan gynnwys yn y chwe safle strategol, lle bo hynny'n briodol.

Yn ystod yr holl gyfarfodydd cyhoeddus a sgyrsiau a gafwyd gyda phobl sy'n byw a gweithio yn y Cymoedd, dywedodd pobl wrthym nad yw gwasanaethau cyhoeddus mor gydgysylltiedig ag y gallent fod.

Mae *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn amlinellu gwaith sydd wedi cychwyn mewn tair cymuned yn y Cymoedd i nodi rhwystrau sy'n atal gweithredu cymunedol rhag cyrraedd ei botensial llawn. Bydd yr hyn a ddysgwyd o'r prosiectau braenaru hyn yn Llanhiledd, Glynrhedynnog a Glyn-nedd a Banwen yn helpu i sbarduno newid yn Llywodraeth Cymru ac ar draws gwasanaethau lleol.

Clywodd y tasglu bob math o sylwadau am y Cymoedd eu hunain, gan gynnwys harddwch naturiol y dirwedd a phryderon ynghylch hygyrchedd. Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad i archwilio datblygiad Parc Tirweddau'r Cymoedd, a fydd yn helpu cymunedau lleol i weithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i fanteisio'n llawn ar dreftadaeth ac adnoddau naturiol eu hardal.

Y bobl sy'n byw a gweithio ym mhob cymuned sy'n adnabod yr ardaloedd hyn orau. Felly, byddwn yn gofyn iddynt ddylunio a datblygu cynigion a fydd yn diwallu eu hanghenion penodol.

Mae sefydliad y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De yn gyfle cyffrous i ganolbwyntio ymdrechion ac adnoddau ar draws llywodraeth er mwyn gwneud newidiadau go iawn a fydd yn para i'r dyfodol. Y cam nesaf yw troi'r blaenoriaethau lefel uchel hyn yn gamau gweithredu penodol.

Bydd y tasglu'n gweithio gyda phobl o bob cwr o Gymoedd y De i ddatblygu cynllun cyflawni a fydd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i aelodau wrth i waith y tasglu ddatblygu dros y misoedd nesaf.



# Ein Cymoedd, Ein Dyfodol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

#TrafodyCymoedd

Tudalen y pecyn 25














# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd 4

Cyflwyniad: Cymoedd y De 5

Gwrando ar beth mae'r Cymoedd ei eisiau 8

**Blaenoriaeth 1** 9

Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

**Blaenoriaeth 2** 12

Gwell gwasanaethau cyhoeddus

**Blaenoriaeth 3** 16

Fy nghymuned leol

Edrych tua'r dyfodol 19


Tudalen y pecyn 26



# Rhagair y Cadeirydd



**Rwyf wrth fy modd yn cyhoeddi Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, cynllun y Tasglu Gweinidogol ar gyfer cynllun Cymoedd y De. Mae wedi cael ei baratoi ar ôl gwrando ar bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd. Mae'n adlewyrchu eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer dyfodol eu teuluoedd a'u cymunedau lleol.**

Ym mis Gorffennaf 2016, gofynnodd y Prif Weinidog Carwyn Jones i mi sefydlu ac arwain darn hirdymor o waith, a fydd yn cyflawni newid hirdymor gwirioneddol i Gymoedd y De; a fydd yn creu swyddi o ansawdd da, yn agosach at gartrefi pobl; a fydd yn gwella sgiliau pobl ac yn dod â ffyniant i bawb.

O'r cychwyn cyntaf, roeddwn yn glir na fyddai'r tasglu hwn yn achos arall lle mae'r llywodraeth yn penderfynu beth sy'n iawn ar gyfer Cymoedd y De. Os ydym am lwyddo lle mae rhaglenni eraill wedi syrthio ar fin y ffordd, mae'n rhaid i gymunedau lleol a phobl leol fod yn gwbl ganolog i waith y tasglu.

Rydym wedi treulio hanner cyntaf 2017 yn siarad a gwrando ar bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd y De am yr hyn y maent am ei weld yn digwydd yn eu cymunedau lleol nawr ac yn y dyfodol. Mae'r sgyrsiau diddorol a chraff hyn – mewn cyfarfodydd cyhoeddus, dros baned ac ar-lein – wedi helpu i siapio'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y cynllun hwn.

Nid sgyrsiau unwaith ac am byth oedd y rhain. Mawr obeithiaf y bydd yr holl bobl a busnesau rydym wedi siarad â nhw hyd yma yn parhau i weithio gydag aelodau'r tasglu i'n helpu i gyflawni'r cynllun yr ydym wedi'i greu gyda'n gilydd.

Ers cychwyn y tasglu, rwyf wedi dweud - a chlywed yn aml - bod mwy o gyfleoedd nag o heriau yn y Cymoedd. Byddwn yn adeiladu ar y cryfderau hyn, gan gynnwys daearyddiaeth unigryw a godidog y Cymoedd. Byddwn yn gwneud mwy i ddathlu'n hanes cyfoethog; ein hamgylchedd; ein diwylliant a'n mannau gwyrdd - mae ganddynt y potensial i roi hwb i les y gymuned yn yr ystyr ehangaf ac i ddod yn atyniad i ymwelwyr o bedwar ban byd.

Cefais fy ngeni a'm magu yn Nhredegar – es i Ysgol Gyfun Tredegar. Heddiw, fy mraint yw cynrychioli Blaenau Gwent yn y Cynulliad Cenedlaethol. Rwyf wedi gweld llawer o newidiadau yn y Cymoedd yn ystod fy oes – mae llawer ohonynt er gwell, ond mae rhai ohonynt er gwaeth.

Rwyf eisiau i'r tasglu hwn wneud gwahaniaeth cadarnhaol, nid yn unig i Gymoedd y De yn gyffredinol, ond i bob un sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd.

Mae ein blwyddyn gyntaf wedi bod yn fwrlwm o waith ac rydym wedi cael sgyrsiau agored, gonest ac eang yng nghyfarfodydd y tasglu wrth i ni ystyried tystiolaeth a gwrando ar bobl o Lanhiledd i Lyn-nedd. Mae hyn yn gychwyn cyfle cyffrous i weithio gyda'n gilydd i newid bywydau er gwell. Os na wnawn ni hynny byddwn wedi methu.

Mae hwn yn gynllun lefel uchel, sy'n disgrifio'r hyn rydym eisiau ei wneud a sut byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gyda llywodraeth leol a byrddau iechyd lleol, gyda'r sector preifat a'r trydydd sector a'r ddwy fargen ddinesig – Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe.

Rydym eisiau'ch adborth yn ystod yr haf i'n helpu i fireinio'r cynllun ymhellach ac i'n helpu i ddechrau cyflwyno'r newidiadau hyn.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda phobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd y De yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.



**Alun Davies AC**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a chadeirydd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De

# Cyflwyniad

**Sefydlwyd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016 ar ôl etholiad y Cynulliad Cenedlaethol a refferendwm yr UE. Caiff ei gadeirio gan Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Gydol Oes. Mae Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a Julie James, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth yn aelodau o'r tasglu hefyd.**

Dyma aelodau eraill y tasglu:

- **Ann Beynon**, cadeirydd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- **Andrew Diplock**, entrepreneur, cynghorydd busnes a Buddsoddwr Angel
- **Judith Evans**, pennaeth Coleg y Cymoedd
- **Dr Chris Jones**, cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- **Martin Mansfield**, ysgrifennydd cyffredinol, TUC Cymru
- **Y Cynghorydd Andrew Morgan**, arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf
- **Yr Athro Brian Morgan**, Prifysgol Caerdydd
- **Jocelyn Davies**, cyn-Ddirprwy Weinidog Plaid Cymru dros Dai ac Adfywio
- **Fiona Jones**, cyfarwyddwr gwasanaethau gwaith Cymru a thîm partneriaethau a chyflogwyr, yr Adran Gwaith a Phensiynau
- **Joanne Foster**, arweinydd cysylltiadau busnes a llywodraeth y DU, GE Aviation
- **Gaynor Richards**, cyfarwyddwr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot



Tudalen y pecyn 28

## Cymoedd y De

**Cymoedd y De yw un o ardaloedd mwyaf nodedig Cymru – mae'r Cymoedd yn enwog am eu hanes; eu daearyddiaeth a'u tirweddau trawiadol ac am eu diwylliant. Pan fyddwn yn sôn am y Cymoedd, rydym yn siarad am gymunedau clos, croesawgar a chyfeillgar.**

Ond mae'r Cymoedd yn wynebu cyfres unigryw o heriau sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn hefyd, wedi'u hachosi'n bennaf gan ddirywiad diwydiant trwm a diwedd y pyllau glo. Mae'r ardal ar ei hôl hi o gymharu â gweddill Cymru o safbwynt economaidd; o ran ansawdd a hyd bywyd ac o ran cyrhaeddiad addysgol a sgiliau.

Mae yna gyfres o fentrau adfywio wedi bod yn y Cymoedd dros yr hanner can mlynedd diwethaf, sydd wedi helpu i weddnewid y dirwedd, ac ar hyn o bryd mae'r ardal yn gymwys i dderbyn cyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'n bwysig nad yw'r Cymoedd yn cael eu diffinio gan yr heriau a wynebant – mae llawer o drefi a phentrefi'n gwneud yn dda; mae'r Cymoedd yn gartref i fusnesau llwyddiannus a rhai sy'n tyfu ac mae gwasanaethau cyhoeddus yn cyflogi degau o filoedd o bobl.

Mae'r Cymoedd yn gartref i hyd at 30% o boblogaeth Cymru - bob dydd mae degau o filoedd o bobl yn cymudo i'r de i Gasnewydd, Caerdydd ac Abertawe i bweru economi Cymru - a phob penwythnos mae miloedd yn teithio i'r gogledd i'r Cymoedd gan gael eu denu gan eu henw cynyddol dda am chwaraeon antur.

Fodd bynnag, nid yw'r teimladau optimistaidd sydd gan lawer yn cael eu rhannu gan bawb yn y Cymoedd. Mae yna ormod o bobl heb fynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd dda; i ormod o bobl, mae'r unig swyddi sydd ar gael yn ansicr ac yn talu'n wael. Mae eu gwasanaethau cyhoeddus lleol yn siom i lawer o bobl ac mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn anodd ei newid a chywilyddus o lydan.

Dangosodd y bleidlais Brexit yng Nghymoedd y De bod llawer o bobl yn teimlo'u bod wedi'u gadael ar ôl a'u cau allan. Nid pleidlais am aelodaeth yr UE yn unig oedd hi, ond pleidlais i ddweud eu bod yn teimlo'n ansicr ynghylch eu lle yn y byd; eu rhagolygon swyddi a'u dyfodol.

Mae'r tasglu wedi bod yn gweithio gyda chymunedau lleol yng Nghymoedd y De i ddatblygu'r cynllun lefel uchel hwn, sy'n nodi'r prif gamau y bydd yn eu cymryd erbyn 2021.

Erbyn 2021, bydd y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd - bydd perthynas wahanol wedi'i thrafod gydag Ewrop a hefyd rhwng y pedair gwlad yn y DU hefyd.

Yn y De, bydd gwaith wedi dechrau ar nifer o brosiectau seilwaith mawr, gwerth miliynau o bunnoedd, a fydd yn cael effaith sylweddol ar y bobl sy'n byw yn y Cymoedd a gwaith y tasglu. Mae'r rhain yn cynnwys Metro De Cymru a'r M4, yn amodol ar ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus.

Bydd y tasglu'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf ar bob cyfle ar gyfer y Cymoedd yn sgil y prosiectau seilwaith hyn ac ymrwymiadau allweddol eraill.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda chynghorau lleol yn y Cymoedd a gyda'r ddwy fargen ddinesig – mae bargeinion dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer y Cymoedd.

Diagram 1



Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw'r fwyaf o'i bath, sy'n dwyn 10 awdurdod lleol ynghyd gyda chronfa fuddsoddi o £1.2 biliwn dros ugain mlynedd. Mae gan Fargen Ddinesig Rhanbarth Bae Abertawe fuddsoddiad o £1.3 biliwn a'i nod yw rhoi hwb i'r economi leol drwy wario £1.8 biliwn dros y 15 mlynedd nesaf.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda busnesau hefyd, gyda'r sector gwirfoddol a gydag ysgolion, colegau a'r GIG.

Mae'r tasglu wedi datblygu'r cynllun hwn mewn ymateb i'r hyn a ddywedodd pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd wrthym yn ystod rhan gyntaf 2017 – gallwch ddarllen adroddiad llawn am yr hyn a ddywedodd pobl wrthym **yma**.

Mae'r tasglu wedi derbyn llawer o dystiolaeth yn ei gyfarfodydd hefyd, sydd wedi dylanwadu ar y cynllun. Mae'r dystiolaeth hon ar gael **yma**. Ac rydym wedi rhoi ystyriaeth i rai strategaethau Llywodraeth Cymru hefyd, megis y strategaeth Cyflogadwyedd Pob Oed newydd a Symud Cymru Ymlaen. Mae rhagor o fanylion am y rhain ar gael **yma**.

Tudalen y pecyn 30

**Ein tair blaenoriaeth yw:**

**Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni**

**Gwell gwasanaethau cyhoeddus**

**Fy nghymuned leol**

Bydd y tasglu'n cynnal cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus dros y misoedd sydd i ddod i siarad â phobl am y cynllun lefel uchel hwn.

Rydym eisiau'ch adborth ar y blaenoriaethau ac ar ein cynigion ar gyfer gweithredu. Rydym eisiau'ch cymorth i'w cyflawni hefyd. Bydd y tasglu'n cyhoeddi cynllun cyflawni manwl yn yr hydref yn seiliedig ar eich adborth.










# Gwrando ar beth mae’r Cymoedd ei eisiau

**Mae’r tasglu wedi bod yn cynnal digwyddiadau ar hyd a lled y Cymoedd i siarad a gwrando ar bobl, busnesau a chymunedau ynghylch eu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.**

Rydym wedi cyfarfod, siarad a gwrando ar bobl mewn cyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol; mewn grwpiau ffocws; mewn cyfarfodydd gyda phobl ifanc, rhieni plant ysgol a busnesau; rydym wedi siarad â phobl drwy’r cyfryngau cymdeithasol ac wyneb yn wyneb.

Mae gwaith ymgysylltu lleol a chymunedol helaeth wedi’i wneud ers sefydlu’r tasglu ac mae’r safbwyntiau a gasglwyd yn ystod y gwaith hwn wedi llywio’r cynllun cychwynnol hwn.

Yn ystod y trafodaethau, roedd llawer o bobl yn amau a fyddai eu lleisiau’n cael eu clywed. Canlyniad y sgyrsiau hyn yw *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*. Byddwn yn parhau i weithio gyda phobl, busnesau a chymunedau lleol i ddatblygu’r cynllun hwn ymhellach a’i roi ar waith.

Bydd manylion holl ddigwyddiadau’r dyfodol ar gael ar ein gwefan[1], Facebook[2] a’n tudalen Twitter[3].

Tudalen y pecyn 31










1 llyw.cymru/trafodycymoedd
2 https://www.facebook.com/talkvalleys/
3 @wg_communities #talkvalleys

# Blaenoriaeth 1

## Swyddi o ansawdd da a’r sgiliau i’w cyflawni

> ***Yr unig swyddi yn yr ardal yw gwaith ar gontract dim oriau neu waith canolfan alwadau. Does dim cyfle i gael gyrfa a chamu ymlaen yn eich swydd yn y cymoedd.*** ”

**Roedd swyddi o ansawdd da a’r cyfle i ddatblygu’r sgiliau i gael swydd dda yn flaenoriaeth amlwg yn yr adborth gan y cyhoedd a’r dystiolaeth a dderbyniodd y tasglu. Dywedwyd wrth y tasglu hefyd fod angen i swyddi a sgiliau gael eu cefnogi gan drafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a hygyrch.**



Mae’r tasglu’n benderfynol o gau’r bwlch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru – bydd yn gweithio gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a’r sector preifat i greu swyddi newydd yn y Cymoedd sy’n deg, yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a’r bargeinion dinesig i ddenu cyflogwyr newydd i Gymoedd y De.

Bydd cau’r bwlch cyflogaeth presennol a sicrhau bod lefelau cyflogaeth yng Nghymoedd y De’r un fath â chyfartaledd Cymru yn golygu y byddwn yn helpu tua 7,000 o bobl ddi-waith neu economaidd anweithgar sy’n byw yn y Cymoedd i gael gwaith (ar sail y lefel bresennol).

Er mwyn gwneud hyn, bydd miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy yn cael eu creu ar draws y Cymoedd a bydd y cymorth a’r mynediad at sgiliau a hyfforddiant i helpu pobl i gael gwaith ac aros mewn gwaith sy’n talu’n dda yn cael eu gwella.

Byddwn yn manteisio i’r eithaf ar Fetro De Cymru a datblygiadau seilwaith trafnidiaeth eraill, gan gynnwys y gwaith sydd ar y gweill i gwblhau gwaith deuoli ffordd Blaenau’r Cymoedd. Byddwn yn gweithio gyda bargeinion dinesig Caerdydd ac Abertawe i wneud y gorau o’r manteision i bobl sy’n byw yn y Cymoedd.



### Gweledigaeth: erbyn 2021

Byddwn yn cau’r bwlch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru – mae hyn yn golygu helpu 7,000 yn rhagor o bobl i gael gwaith ac y bydd miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy yn cael eu creu yn y Cymoedd.

Bydd pobl sy’n byw yn y Cymoedd yn cael mynediad at y sgiliau cywir i gael gwaith.

Bydd busnesau yn cael cefnogaeth lawn i dyfu a ffynnu yng Nghymoedd y De.

| Fe ddywedoch chi... | Fe wnawn ni... |
|---|---|
| Does dim digon o gyfleoedd gwaith o fewn cyrraedd i lawer o gymunedau'r Cymoedd.<br><br>Mae gormod o gontractau dim oriau a gormod o waith dros dro ac asiantaeth. | 1. Archwilio pob opsiwn a chreu hybiau strategol newydd mewn ardaloedd penodol ar draws y Cymoedd. Bydd y rhain yn ardaloedd lle mae arian cyhoeddus yn cael ei dargedu i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer buddsoddi gan y sector preifat ac i greu swyddi newydd.<br><br>Bydd pob hyb yn canolbwyntio ar adlewyrchu'r cyfleoedd a'r galw mewn ardal benodol a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>**Bydd hybiau'n cael eu sefydlu yn y mannau canlynol:**<br>• Pontypridd/Trefforest, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau preswyl, swyddfa, diwydiannol a manwerthu<br>• Caerffili/Ystrad Mynach, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau preswyl, swyddfa a diwydiannol<br>• Cwmbrân, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau swyddfa, diwydiannol a phreswyl<br>• Merthyr Tudful, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau swyddfa, diwydiannol a phreswyl<br>• Castell-nedd, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau preswyl, digidol ac ynni.<br><br>**Byddwn hefyd yn creu hyb strategol yng:**<br>• Nglyn Ebwy, gan ganolbwyntio ar barc busnes technoleg fodurol newydd, gyda'r potensial i gefnogi 1,500 o swyddi newydd cyfwerth ag amser llawn. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan £100m o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru dros ddeng mlynedd. Bydd y cam cyntaf yn darparu 40,000 troedfedd sgwâr o le ar gyfer gweithgynhyrchu.<br>• Byddwn yn cyflwyno rhaglenni i gefnogi cyflogwyr newydd a chyfredol ym Mlaenau Gwent drwy ddatblygu sgiliau'r gweithlu lleol ac yn edrych ar y posibilrwydd o leoli depo Metro De Cymru yn Ardal Fenter Glynebwy.<br><br>2. Adleoli mwy o swyddi sector cyhoeddus yn y Cymoedd, gan gynnwys yn lleoliadau'r chwe hyb strategol arfaethedig, lle y bo'n briodol. Er enghraifft, mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo'n barod i sefydlu ei bencadlys newydd ym Mhontypridd.<br><br>3. Sicrhau bod mwy o dir ac eiddo cyhoeddus ar gael yn y Cymoedd ar gyfer datblygu.<br><br>4. Cynyddu cyfleoedd i gael swyddi yn yr economi leol sylfaenol – busnesau rydym yn eu defnyddio bob dydd ac yn eu gweld o'n cwmpas, fel manwerthu, gofal a'r diwydiant bwyd.<br><br>5. Cefnogi creu mwy o swyddi digidol yn y Cymoedd a datblygu dau hyb technoleg ddigidol i helpu busnesau newydd sy'n dechrau yn y sector.<br><br>6. Cyflwyno *Swyddi Gwell yn Nes* at Adref yn y Cymoedd i greu cyfleoedd go iawn a swyddi da lle mae'r angen mwyaf. Mae hyn yn cynnwys defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi lleol.<br><br>7. Manteisio ar y potensial i greu swyddi o fuddsoddiadau seilwaith mawr, gan gynnwys Metro De Cymru, yr M4 a'r gwaith sydd ar y gweill o ddeuoli'r A465 a thai fforddiadwy newydd.<br><br>8. Creu cymaint o swyddi gwyrdd a chyfleoedd busnes â phosib o fuddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni drwy raglen *Cartrefi Clyd* Llywodraeth Cymru. |

Tudalen y pecyn 33

| Fe ddywedoch chi... | Fe wnawn ni... |
|---|---|
| Mae busnesau eisiau mwy o gefnogaeth i sefydlu a datblygu eu busnesau. | 1. Alinio'n well y cymorth busnes ar gyfer busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes, ac annog a rhoi cymorth i ddarpar entrepreneuriaid. Gwella 25% ar y broses o droi ymholiadau cychwynnol yn gefnogaeth weithredol sy'n darparu capasiti cyflogadwyedd neu fusnesau newydd.<br>2. Ar gyfer y 100 o fusnesau yn y Cymoedd sydd â'r potensial twf mwyaf, bydd mynediad at becyn integredig o gymorth i ddatblygu'r busnes, recriwtio a hyfforddi i greu swyddi; cynyddu lefelau sgiliau'r staff presennol a rhoi hwb i gynhyrchiant. |
| Gneud mwy i helpu pobl i gael y swyddi sydd ar gael – dywedodd ysgol yng Nghaerffili wrth y tasglu sut mae'n gweithio gyda chyflogwyr lleol i helpu pobl ifanc i ddeall cyfleoedd gwaith a pha sgiliau a chymwysterau sydd eu hangen. | 1. Darparu cyngor gyrfaoedd wedi'i dargedu i helpu pobl ifanc i gael mynediad at swyddi, yn enwedig mewn sectorau newydd a thwf a chyfleoedd entrepreneuraidd hefyd. Cyflwyno Gwasanaeth Cyfnewid Busnes Addysg newydd yn gyflymach a'r swyddogion gweithredol a fydd yn gweithio gydag ysgolion a cholegau yn y Cymoedd.<br>2. Darparu mynediad at becyn pwrpasol o gymorth sgiliau drwy ehangu rhaglenni cyflogadwyedd, sy'n helpu pobl sy'n ddi-waith i ennill a chadw swydd.<br>3. Darparu cefnogaeth a hyfforddiant i bobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir ac yn economaidd anweithgar i ennill sgiliau i gael swydd. Byddwn yn sicrhau bod rhaglenni cyflogaeth a sgiliau sy'n cefnogi'r rhai sydd bellaf o waith yn gydgysylltiedig a byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu cymalau cymdeithasol i sicrhau bod hyn yn digwydd.<br>4. Darparu model prentisiaeth a rennir i ysgogi'r farchnad ym meysydd STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), iechyd, twristiaeth, lletygarwch, ffermio, rheoli coetiroedd a thechnoleg micro-hydro.<br>5. Creu mwy o gyfleoedd prentisiaeth, gan gynnwys yn y sector cyhoeddus ac yn y sectorau gwaith ieuenctid a chwaraeon.<br>6. Helpu myfyrwyr yn y coleg, rhai sy'n dysgu yn y gwaith ac yn y brifysgol i gynnal a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg i ateb y galw mewn sectorau allweddol megis iechyd a gofal cymdeithasol. |
| Gall faint o ofal plant sydd ar gael a'i gost mewn rhai ardaloedd fod yn rhwystr i ddychwelyd i'r gwaith. | 1. Dechrau cyflwyno a phrofi *cynnig gofal plant* Llywodraeth Cymru[4] mewn rhannau o Rondda Cynon Taf a Chaerffili o fis Medi 2017 ymlaen. Treialu'r cynnig ledled Blaenau Gwent, gan ganolbwyntio ar sut gellir dileu rhwystrau i gyflogadwyedd yn sgil anghenion gofal plant.<br>2. Gweithio gyda Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd ar gais i gronfa cynhwysiant gweithredol CGGC i annog pobl sy'n economaidd anweithgar i fanteisio ar leoliadau gwaith mewn meithrinfeydd gofal dydd. |
| Mae diffyg cyngor gyrfaoedd cyson sy'n cynnig gwybodaeth lawn ar gyfer pobl ifanc.<br>Mae angen "sgiliau gwaith" ar bobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer cyflogaeth. Er enghraifft, prydlondeb a hyder. | 1. Cyflwyno gwasanaeth cyfnewid busnes addysg newydd Gyrfa Cymru'n gyflymach yn y Cymoedd yn 2017. Bydd hyn yn cynnig gwybodaeth i ysgolion am brofiad gwaith a mathau eraill o gymorth sydd ar gael gan gyflogwyr.<br>2. Cryfhau ymgysylltiad a arweinir gan ddiwydiant mewn ysgolion a chymunedau lleol i annog pobl ifanc i ystyried gyrfaoedd yn y diwydiannau digidol.<br>3. Gweithio gyda busnesau i ddeall anghenion sgiliau digidol cyfredol a rhai'r dyfodol i sicrhau bod sgiliau a chynlluniau prentisiaeth yn diwallu eu hanghenion. |

Tudalen y pecyn 34

[4] http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/update/?lang=cy

# Blaenoriaeth 2

## Gwell gwasanaethau cyhoeddus

> *Does dim cysondeb gyda'r llwybrau bysiau – maen nhw'n newid y rhifau a chanslo gwasanaethau'n ddirybudd.*
> ”

**Clywsom lawer o straeon am wasanaethau cyhoeddus rhagorol yn y Cymoedd, ond clywsom hefyd nad yw gwasanaethau mor gydgysylltiedig ag y gallent fod. Cawsom ein taro gan dystiolaeth fod cyrff cyhoeddus yn ceisio cynnwys pobl mewn penderfyniadau, a fydd yn effeithio ar eu bywydau, ond dywedwyd wrthym hefyd gan lawer bod cael eu clywed yn gallu bod yn broblem.**

Fe wnaethoch chi ddweud wrthym fod angen i wasanaethau cyhoeddus fod yn fwy ymatebol i anghenion cymunedau lleol a bod angen cyffredinol i gydgysylltu gwasanaethau'n fwy effeithiol er mwyn iddynt gael yr effaith orau bosib, yn enwedig gan fod arian cyhoeddus mor brin.

Mae ysgolion a cholegau'n chwarae rhan allweddol – maen nhw'n gwbl hanfodol wrth roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a'u helpu i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r tasglu am weld plant yn y Cymoedd yn gwneud yn well yn yr ysgol a'r coleg. Rydym am i gyrhaeddiad a chanlyniadau cyffredinol wella ac rydym am i'r bwlch gau rhwng plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'u cyd-ddisgyblion. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion, colegau a chymunedau lleol i sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Dydyn ni ddim am i fywydau pobl gael eu difetha gan iechyd corfforol neu feddyliol gwael – rydym eisiau i wasanaethau iechyd fod yno pan fydd pobl angen help, ond hefyd rydym eisiau i bobl ddeall sut i ofalu am eu hunain.

Byddwn yn gweithio gyda'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu gofal mor agos i'r cartref â phosib a sicrhau bod y sgiliau gan gymunedau i fyw bywydau iach.

Gall trafnidiaeth gyhoeddus annibynadwy a digyswllt ar draws y Cymoedd rwystro pobl rhag cael mynediad i swyddi, addysg, hyfforddiant, a gwneud rhywbeth mor syml â chyfarfod teulu a ffrindiau. Dywedodd llawer o bobl wrthym y dylai hyn fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y tasglu gan fod cymaint o flaenoriaethau eraill yn dibynnu ar gysylltiadau trafnidiaeth da.




### Gweledigaeth: erbyn 2021

Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'r trydydd sector a chymunedau lleol i ymateb i anghenion pobl.

Bydd cymorth ar gael i helpu pobl i fyw bywydau iachach, gan wella eu lles corfforol a meddyliol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn gydgysylltiedig, yn fforddiadwy ac yn helpu pobl i fynd i'r gwaith, i'r ysgol neu i hyfforddiant, ac i gyfleusterau hamdden.

Byddwn yn gwella canlyniadau addysg i bob plentyn a chau'r bwlch cyrhaeddiad.

| Fe ddywedoch chi... | Fe wnawn ni... |
|---|---|
| Mae angen i wasanaethau cyhoeddus fod yn fwy cydgysylltiedig. | 1. Gwneud gwaith arloesol mewn tair o gymunedau'r Cymoedd – Llanhiledd, Glynrhedynnog a Glyn-nedd/Banwen – i ystyried sut gall gwasanaethau a darpariaethau lleol fod yn fwy cydgysylltiedig. Bydd uwch swyddog Llywodraeth Cymru'n cydweithio gyda phrosiectau cymunedol sefydledig i nodi rhwystrau sy'n atal gweithgareddau cymunedol rhag cyrraedd eu llawn botensial.<br>Bydd y tri phrosiect braenaru hyn yn hyrwyddo newid yn Llywodraeth Cymru ac yn helpu i wella gwasanaethau lleol yn y tair cymuned.<br>2. Cydweithio â chynghorau lleol i ddatblygu system blynyddoedd cynnar ymatebol a chydgysylltiedig, sy'n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth ei chalon. Bydd hyn yn adeiladu ar ddull gwasanaethau integredig rhaglenni megis Dechrau'n Deg . |
| Dylid gwneud gwell defnydd o gyfleusterau a gwasanaethau i gymunedau. Er enghraifft, gallai gwasanaethau cyhoeddus eraill a sefydliadau'r trydydd sector ddefnyddio ysgolion ar ôl oriau'r ysgol. | 1. Defnyddio hybiau cymunedol cyfredol – a chreu rhai newydd, lle gall y GIG, y gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a chanolfannau gwaith gydweithio â'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau lleol. Byddwn ni'n cydweithio â chymunedau lleol a chynghorau lleol i ddatblygu'r rhain a phenderfynu lle dylid eu lleoli.<br>2. Adeiladu ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar gydleoli gwasanaethau a sicrhau defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau bod modd defnyddio ysgolion mewn ffordd fwy hyblyg a'u galluogi i gynnig cyfleusterau i wasanaethau cyhoeddus eraill y tu allan i oriau ysgol.<br>3. Ehangu'r defnydd o reolwyr busnes hyfedr i gefnogi a chynyddu cysylltiadau rhwng ysgolion a chymunedau lleol. |
| Mae angen i wasanaethau iechyd fod yn fwy cymwys i ymdrin â phoblogaeth sy'n heneiddio. Hefyd dylid cael gwell cydgysylltiad rhwng Meddygon Teulu a gwasanaethau anghlinigol. | 1. Treialu dulliau newydd er mwyn gwella mynediad at gymorth iechyd meddwl a llesiant personol. Bydd hyn yn galluogi Meddygon Teulu, nyrsys a gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol eraill i atgyfeirio pobl at amrywiaeth o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, i ddiwallu anghenion pobl.<br>2. Datblygu cyfleoedd hyfforddi a llwybrau gyrfa i bobl sy'n byw yn y Cymoedd mewn cyfres o rolau gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd allweddol, gan gynnwys gweithwyr gofal deintyddol, nyrsys a gweithwyr cymorth gofal ac iechyd. Bydd hyn yn gymorth wrth nodi'r atebion unigryw sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau wrth recriwtio'n lleol.<br>3. Datblygu rhaglen fynediad ehangach i bobl ifanc o'r Cymoedd sydd am ddilyn gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys meddygaeth. Bydd hyn yn datblygu ar rwydwaith Seren[5]. |
| Nid yw pobl yn teimlo bod gwasanaethau iechyd meddwl yn eu cefnogi. | 1. Blaenoriaethu'r Cymoedd wrth gyflwyno'r bond llesiant – menter newydd sy'n ceisio helpu i gynyddu gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol.<br>2. Hyrwyddo rhagnodi cymdeithasol, gan gynnwys treialu ffyrdd newydd o gysylltu pobl â chymorth iechyd meddwl, er enghraifft trwy'r celfyddydau a diwylliant; chwaraeon a hamdden llesol; corau cymunedol a'r defnydd o fannau gwyrdd. |

Tudalen y pecyn 36

[5] Mae Seren yn cefnogi disgyblion chweched dosbarth disgleiriaf Cymru i gyflawni eu potensial academaidd a chael mynediad i brifysgolion blaenllaw.

| Fe ddywedoch chi... | Fe wnawn ni... |
|---|---|
| Gall tai o ansawdd gwael a gormod o eiddo gwag gael effaith andwyol ar y gymuned ehangach a gall achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. | 1. Cydweithio â chynghorau'r Cymoedd i wella cymorth cyhoeddus ar gyfer arbed ynni a chamau i wella tai. Bydd hyn yn adeiladu ar waith y clywodd y tasglu amdano yn Rhondda Cynon Taf, lle mae benthyciadau hyd at £25,000 ar gael i berchnogion cartrefi, landlordiaid a datblygwyr i wella cartrefi. Mae hyn wedi helpu i leihau nifer y tai gwag yn yr ardal. |
| Mae'r prinder o dai fforddiadwy o ansawdd da yn parhau. | 1. Harneisio'r cyfleoedd a ddarperir gan Metro De Cymru i adfywio tai yn y Cymoedd.<br>2. Cynyddu'r dewis o dai trwy ddatgloi gwaith sydd wedi ei ohirio ar safleoedd tai a chydweithio ar bartneriaethau bargeinion dinesig.<br>3. Cefnogi adeiladwyr lleol i adeiladu'r cartrefi mae pobl eu hangen trwy bartneriaeth newydd rhwng cynghorau'r Cymoedd a Cyllid Cymru.<br>4. Archwilio opsiynau tai newydd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig trwy gydbartneriaeth rhwng landlordiaid cymdeithasol yn y Cymoedd yn dilyn gwaith gan Sefydliad Joseph Rowntree. |
| Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gymalog ac yn ddrud, ac mae'n atal pobl rhag cyrraedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. | 1. Sicrhau bod yr hybiau arfaethedig i Fetro De Cymru yn gweithredu fel pwyntiau cymunedol allweddol, yn darparu ffocws ar dai, iechyd, addysg a buddsoddiadau eraill mewn gwasanaethau cyhoeddus.<br>2. Cydweithio â darparwyr bysiau a rheilffordd i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus ledled y Cymoedd yn fwy mynych a fforddiadwy a'i bod yn cysylltu â theithio llesol – beicio a cherdded – fel rhan o ddatblygiad Metro De Cymru.<br>3. Gwella trafnidiaeth gyhoeddus i adlewyrchu'n well anghenion busnesau a chymunedau lleol, gan gynnwys pobl sy'n gweithio oriau anghyson a rhan-amser.<br>4. Archwilio dichonoldeb cynllun prisiau gostyngol i bobl ifanc.<br>5. Treialu llwybrau bysiau newydd ac ehangu darpariaeth trafnidiaeth gymunedol ar draws y Cymoedd. Bydd hyn yn adeiladu ar waith Cwm Cynon, lle mae trafnidiaeth gymunedol wirfoddol yn helpu pobl anabl.<br>6. Gwella'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer teithio trwy ddefnyddio technoleg ddigidol megis apiau, yn ogystal â dulliau traddodiadol. Bydd hyn yn helpu pobl i gynllunio eu teithiau'n fwy effeithiol. |

# Blaenoriaeth 3

## Fy nghymuned leol

> *Mae llwybr cerdded hyfryd gerllaw – ar bwys y rhaeadrau, ond mae annibendod ymhob man. Mae pobl ifanc yn cynnau tanau ac yn gadael sbwriel achos does dim byd arall ganddyn nhw i'w wneud.* ”

**Mae gan Gymoedd De Cymru hanes hir a balch sydd wrth galon diwylliant Cymru. Dyma ardal sy'n gyforiog o rai o dirweddau naturiol mwyaf anhygoel ac arbennig Cymru.**



Nid un gymuned sengl sydd yn y Cymoedd ond llawer o bobloedd amrywiol a gwahanol – roedd y gwahaniaethau hyn yn amlwg wrth inni symud o'r naill gymuned i'r llall, a siarad â grwpiau gwahanol o bobl. Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau ganddyn nhw am eu bro – o ymdeimlad cryf o falchder yn eu hardal leol i sôn am yr ensyniadau negyddol sy'n aml yn cael eu cysylltu â'r Cymoedd.

Ond roedd cytundeb cyffredinol y gallem ni fanteisio'n fwy ar amgylchedd naturiol y Cymoedd; roedd angen denu mwy o bobl leol ac ymwelwyr i werthfawrogi'r diwylliant a'r dreftadaeth. Gallai diwylliant a threftadaeth y Cymoedd fod yn gefnlen i ddyfodol newydd yr ardal.

Gallai prosiectau newydd fel Canolfan Antur Cwm Afan a blaenau Cymoedd Afan a Llynfi drawsnewid yr ardal leol i'r sawl sy'n byw gerllaw a denu ymwelwyr a thwristiaid, gan hybu sgiliau a chyflogaeth.

Gallai'r cynllun hwn, fel rhai eraill tebyg fod yn allweddol wrth fynd ati i ddatblygu'r syniad ar gyfer Parc Tirweddau'r Cymoedd, ynghyd â phrosiectau graddfa fach sy'n cynnwys coetiroedd cymunedol.

Dywedodd rhai cymunedau wrth y tasglu y gallen nhw elwa mwy ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy tra bod eraill yn sôn am yr angen i foderneiddio canol trefi, gan symud i ffwrdd oddi wrth y syniad traddodiadol o'u datblygu yn ganolfannau siopa.













### Gweledigaeth: erbyn 2021

Bydd Parc Tirweddau'r Cymoedd wedi ei sefydlu i helpu cymunedau lleol i ddathlu a manteisio i'r eithaf ar y defnydd o adnoddau naturiol a threftadaeth.

Bydd canol trefi'r Cymoedd yn llawn bywyd gyda digon o fannau agored gwyrdd, a fydd yn fodd i gefnogi'r economi leol.

Bydd y Cymoedd yn gyrchfan gydnabyddedig i dwristiaid, a fydd yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r DU a thu hwnt.

| Fe ddywedoch chi... | Fe wnawn ni... |
| --- | --- |
| Nid ydym ni'n manteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol cyfoethog a threftadaeth ddiwylliannol y Cymoedd. | 1. Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu Parc Tirweddau'r Cymoedd. Bydd hyn yn helpu cymunedau lleol i gydweithio â'r cyhoedd, y sectorau preifat a'r trydydd sector i ddathlu a manteisio i'r eithaf ar y defnydd o adnoddau naturiol yr ardal a'i threftadaeth.<br><br>Mae'r cyfleoedd yn cynnwys:<br>• Gwella llesiant corfforol a meddyliol<br>• Cyflogaeth trwy seilwaith gwyrdd<br>• Cynlluniau ynni adnewyddadwy<br>• Hyrwyddo'r Cymoedd yn gadarnhaol fel cyrchfan i dwristiaid<br>• Creu cartrefi'r 21ain ganrif gan ddefnyddio pren o ffynonellau lleol<br>• Ymateb i her tipio anghyfreithlon<br>• Cefnogi'r iaith Gymraeg |
| Mae angen rhoi ffocws o'r newydd ar ganol trefi. | 1. Sicrhau bod strategaethau adfywio llywodraethau lleol a chenedlaethol yn herio'r model traddodiadol o ganol tref, ar sail anghenion a dymuniadau'r cymunedau. Cefnogi mentrau sy'n hyrwyddo cymysgedd o dai, siopau, busnesau a mannau gwyrdd.<br>2. Archwilio effaith parcio di-dâl ar ganol trefi yn y Cymoedd – fe ddywedoch chi fod gan Ganolfan Siopa Cwmbrân faes parcio di-dâl bob dydd ac y gall hyn annog masnach a helpu canol trefi i gystadlu â'r parciau manwerthu ar gyrion y dref. |
| Mae ynni adnewyddadwy yn darparu cyfleoedd gwirioneddol i gymunedau lleol. | 1. Cefnogi datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol dan berchnogaeth leol yn y Cymoedd. Byddwn yn nodi'r cyfleoedd gorau trwy ddod ag asiantaethau lleol a chenedlaethol at ei gilydd i gyflawni prosiectau.<br>2. Datblygu dulliau newydd o reoli a defnyddio ynni a gaiff ei gynhyrchu trwy gynlluniau adnewyddadwy gyda'r nod yn y pen draw o gael y Cymoedd i bweru eu cymunedau eu hunain.<br>3. Cydweithio â phartneriaid lleol a chenedlaethol i drechu tlodi tanwydd yn y Cymoedd a chyrraedd targedau datgarboneiddio:<br>• Cynyddu graddfa buddsoddiadau mewn effeithlonrwydd ynni cartref er mwyn annog a chefnogi'r sawl a all fuddsoddi yn y gwaith o wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi;<br>• Hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael trwy raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi pobl ar incwm isel neu bobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn y Cymoedd. |

| Fe ddywedoch chi... | Fe wnawn ni... |
|---|---|
| Mae angen cynyddu twristiaeth yn yr ardal gan ganolbwyntio ar harddwch naturiol a threftadaeth y Cymoedd. | 1. Datblygu naratif newydd a chadarnhaol ar gyfer twristiaeth yn y Cymoedd a nodi prosiectau i fodloni gofynion twristiaeth presennol a rhai'r dyfodol, gan ganolbwyntio ar y dirwedd, y dreftadaeth a'r bobl. Byddwn ni'n adeiladu ar fentrau llwyddiannus megis *Bike Park Wales* sydd wedi denu llawer o ymwelwyr i Ferthyr Tudful.<br>2. Nodi cyfleoedd i ddenu digwyddiadau newydd i'r Cymoedd – digwyddiadau chwaraeon, fel beicio mynydd, cyfeiriannu a datblygu digwyddiadau presennol, megis Gŵyl Steelhouse, yng Nglyn Ebwy. |
| Mae angen cynnal a chadw'r amgylchedd ffisegol yn well a mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. | 1. Gwella amgylchedd ffisegol cymunedau trwy fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd.<br>2. Cydlynu camau gweithredu gyda chymunedau lleol a busnesau mewn ardaloedd sy'n dioddef o sbwriel yn cael ei ollwng, tipio anghyfreithlon a chreu amgylchedd sy'n rhydd o sbwriel. |

## Edrych tua'r dyfodol

***Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* – dyma gynllun lefel uchel sy'n nodi blaenoriaethau'r tasglu ar sail y dystiolaeth a glywsom a'r adborth a gawsom gan bobl sy'n byw a gweithio yng Nghymoedd y De.**

Hoffem gael eich barn ar y cynllun hwn a'r ffordd y gallem ddatblygu'r blaenoriaethau ymhellach. Bydd eich adborth, eich barn a'ch tystiolaeth yn ein helpu ni i ddatblygu cynllun cyflawni manwl a fydd yn dweud:

- Sut byddwn ni'n cyflawni'r blaenoriaethau hyn
- Pwy ddylai gymryd rhan
- Y manteision disgwyliedig
- Yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith
- Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant.



O ystyried nodweddion unigryw cymunedau gwahanol Cymoedd y De, efallai y bydd rhai camau'n cael eu teilwra ar gyfer ardaloedd penodol.

Er mwyn datblygu a chyflawni cynllun gwaith uchelgeisiol a heriol, a'i gyflawni'n effeithiol bydd rhaid cael partneriaeth barhaus â'r cyhoedd, a chydweithio â chyrff statudol yn enwedig awdurdodau lleol.

Cyhoeddir y cynllun cyflawni yn ystod hydref 2017. Hoffem barhau i dderbyn barn cynifer o bobl â phosibl. Mae manylion yr holl ddigwyddiadau ymgysylltu arfaethedig ar gael ar ein gwefan[6], Facebook[7] ac ar dudalennau Twitter[8].

## Manylion pellach



[6] http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/talk-valleys-get-involved/?lang=en
[7] https://www.facebook.com/talkvalleys/
[8] @wg_communities #talkvalleys

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cynllun hwn i:

Tasglu'r Cymoedd
Y Gwasanaethau Addysg a Chyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: talkvalleys@wales.gsi.gov.uk
trafodcymoedd@cymru.gsi.gov.uk

Mae crynodeb a fersiwn i bobl ifanc o'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan yn y cyfeiriad isod: http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/our-valleys-our-future/?lang=cy



## Dogfennau cysylltiedig

- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*
  http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy
- *Symud Cymru Ymlaen 2016 – 2021*
  http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy
- *Tasglu'r Cymoedd – Crynodeb o Ymgysylltiad*
  http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/our-valleys-our-future/?lang=cy
- *Tasglu'r Cymoedd – Crynodeb o Dystiolaeth*
  http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/our-valleys-our-future/?lang=cy
- *Tasglu'r Cymoedd – Cyd-destun*
  http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/our-valleys-our-future/?lang=cy







OGL © Hawlfraint y Goron 2017
WG31488 ISBN digidol 978-1-78859-193-5
Delweddau drwy'r ddogfen: © Hawlfraint y Goron (2016) Croeso

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-26-17 Papur 4 / Paper 4

Ein cyf/Our ref MA(P)KW/2659/17

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AM
Cadeirydd – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

24 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin ynghylch blaenraglen waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn gofyn am y sefyllfa bresennol ynghylch ysgolion bro yng Nghymru.

Gwnaethoch ofyn yn benodol am y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau gweithredu cymunedol yn eu hardaloedd. Trosglwyddwyd elfen o'r grant ysgolion bro blaenorol i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion fel rhan o'r broses ehangach o ad-drefnu grantiau. Bwriadwyd i'r Grant sefydlu ac atgyfnerthu'r dimensiwn cymunedol sy'n hanfodol ar gyfer effeithiolrwydd ysgolion. Trosglwyddwyd y Grant wedi hynny i'r Grant Gwella Addysg. Mae'r Grant Gwella Addysg, yn ei dro, yn cefnogi canlyniadau gwell i bob dysgwr ar draws y camau allweddol ac mae'r mwyafrif o'r cyllid yn cael ei ddirprwyo i ysgolion i gefnogi ein blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn unol â chynlluniau datblygu pob ysgol. Mae'r gwariant sy'n gysylltiedig â phrosiectau bro ac ysgolion yn parhau i fod yn gymwys o dan y Grant Gwella Addysg lle mae'n cefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr.

Yn ogystal, cafodd yr elfen gofal plant o'r Grant Ysgolion Bro ei ailenwi yn Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol yn 2011/12. Er hynny, rydym wedi darparu dyraniad blynyddol o £2.3 miliwn i awdurdodau lleol drwy'r Grant hwn i'w cefnogi wrth fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn eu hardaloedd. Defnyddir y grant mewn nifer o ffyrdd ac mae'n amrywio ar draws awdurdodau lleol gan ddibynnu ar anghenion lleol, er enghraifft fe'i defnyddir i ariannu'r ddarpariaeth o leoedd a gynorthwyir, grantiau cynaliadwyedd a hyfforddi staff.

Nodaf y dystiolaeth a roddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Yn ystod fy ymweliadau ag ysgolion ledled Cymru, rwyf wedi gweld nifer o enghreifftiau o ble mae'r arferion da hyn yn cael eu rhoi ar waith

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn ddyddiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog ysgolion ers tro i weithredu mewn modd strategol mewn perthynas â gweithio cymunedol mewn partneriaeth - y profwyd ei fod yn cefnogi gwaith ysgolion o ymgysylltu â theuluoedd, yn cyfoethogi bywyd ysgol ac yn cyfrannu at 'gyfalaf cymdeithasol' mewn nifer o ffyrdd pwysig eraill. Nid yw hyn wedi newid. Mae ymchwil yn dangos bod teuluoedd disgyblion mewn ysgolion cymunedol yn cyfathrebu mwy ag athrawon ac yn chwarae mwy o ran ym mywyd yr ysgol, a bod rhieni/gofalwyr yn dangos mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb am lwyddiant dysgu eu plant.

Ymgysylltiad teuluoedd a chymunedau yw conglfaen y rhaglen Ailysgrifennu'r Dyfodol - ein strategaeth i wella cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Os gall ysgolion helpu teuluoedd a'r gymuned ehangach i ddarparu amgylcheddau a chyfleoedd dysgu gwell, yna byddant mewn sefyllfa lawer gwell i helpu plant i gyflawni eu potensial, beth bynnag eu cefndir.

Mae ein canllawiau ar Ymgysylltu â'r Gymuned a  heuluoedd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015, yn cynnwys pecyn cymorth o 25 o adnoddau ymarferol ar gyfer ysgolion, gan gynnwys un ar ddatblygu partneriaethau cymunedol. Maent oll wedi'u dylunio i annog ystyriaeth a chynllunio camau gweithredu ac i ddarparu enghreifftiau o'r hyn y mae ysgolion eraill wedi'i wneud. Mae'r canllawiau a'r pecyn cymorth yn cysylltu'n agos ag ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio'n benodol eleni ar sut y gall rhieni a gofalwyr gefnogi lles eu plentyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda chonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion i hybu'r arferion gorau a dull gweithredu cyson mewn perthynas ag ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau mewn ysgolion ledled Cymru.

Bydd un o adolygiadau thematig Estyn ar gyfer eleni yn canolbwyntio ar y llwybrau cyfathrebu y mae rhieni'n eu ffafrio ac yn ystyried sut y mae ysgolion yn gweithio i wella eu dulliau o gyfathrebu â rhieni. Un o amcanion allweddol yr adroddiad fydd cefnogi ysgolion a theuluoedd i wella safonau a lles disgyblion drwy leihau rhwystrau i gyfathrebu drwy ymgysylltu â theuluoedd. Bydd adolygiad Estyn hefyd yn rhannu dulliau ymarfer effeithiol gan ysgolion ar ddulliau effeithiol o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni i wella safonau a lles.

Rwy'n falch o'ch hysbysu y bydd buddsoddiad o £1.4 biliwn ym Mand A o'r Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i ailadeiladu ac adnewyddu dros 150 o ysgolion a cholegau ledled Cymru dros gyfnod o bum mlynedd a ddaw i ben yn 2019. Yn ystod Band A, sydd ar waith rhwng 2014 a 2019, anogir awdurdodau lleol a phartneriaid darparu eraill i feddwl yn arloesol ynghylch darparu'r gwasanaethau hyn yn eu hardaloedd ac i sicrhau'r gwerth gorau am arian, er enghraifft, y cyfle i gydleoli gwasanaethau. Bu fy swyddogion hefyd yn annog awdurdodau lleol i ystyried cyfleoedd i ddefnyddio asedau mewn modd cymunedol, er enghraifft y defnydd o gyfleusterau chwaraeon.


Rwy'n parhau i ddatblygu'r gwaith hwn ac, ym Mand B y rhaglen, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac a fydd ar waith rhwng 2019 a 2024, un o'r ddau amcan buddsoddi yw gwneud y mwyaf o'r defnydd o seilwaith ac adnoddau, i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ein cymunedau erbyn 2024. Bydd hyn yn cynnwys hyblygrwydd o ran ein hasedau er mwyn gwneud y mwyaf o'r lle a'r cyfleusterau sydd ar gael i'n cymunedau.

Ein huchelgais yw y bydd pob cyfleuster sy'n derbyn buddsoddiad yn ymrwymo i ddarparu asedau i'w defnyddio gan y gymuned os bydd galw am hynny yn lleol.

Yn ogystal, cyhoeddwyd adroddiad 'Increasing the Use of School Facilities' y llynedd gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru ynghylch sut y gellir defnyddio cyfleusterau ysgolion mewn modd ehangach gan gymunedau. Mae fy swyddogion yn gweithio ar ddatblygu argymhellion yr adroddiad i hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau ysgolion gan gymunedau.

Rwy'n cefnogi'n gryf y defnydd o'n hasedau gan y gymuned ehangach, a fydd yn ein helpu i sicrhau gwell gwerth ar gyfer ein buddsoddiadau. Mae'n bwysig bod fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'u cydweithwyr ar draws ein hadrannau portffolio, i sicrhau nad ydym yn esgeuluso unrhyw ryngddibyniaeth neu gyfle i ddarparu cefnogaeth ar y cyd a galluogi ymdrechion.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-26-17 Papur 5 / Paper 5

**Carl Sargeant AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

8 Awst 2017

Annwyl Carl

**Yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol ar 20 Gorffennaf**

Diolch am eich amser yn y Pwyllgor ar ddiwedd y tymor. Yn ystod y cyfarfod gwnaethoch ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol am y meysydd isod, i ychwanegu at eich tystiolaeth lafar:

- Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys y system sydd ar waith i fonitro ei ddefnydd ac enghreifftiau o newidiadau i bolisi sydd wedi digwydd o ganlyniad i Asesiad;
- Annibyniaeth gymharol model comisiynwyr statudol Cymru o gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill (yn canolbwyntio ar y Comisiynydd Plant yn arbennig);
- Yr amserlenni sy'n gysylltiedig â meysydd arloesedd Rhoi Plant yn Gyntaf;
- Y diweddaraf am pryd y caiff y strategaeth gweithlu gofal plant ei chyflwyno, a rhagor o fanylion am ei chynnwys a'r cynllun ar gyfer ei gweithredu;
- Nodyn ar y gwaith a wneir gan eich tîm mewn perthynas â phlant a phobl ifanc wrth baratoi ar gyfer y DU yn gadael yr UE;
- Manylion am werthusiadau (academaidd) diweddar Dechrau'n Deg a chynlluniau tebyg eraill sy'n seiliedig ar god post, gyda chymariaethau penodol o ganlyniadau ar gyfer y plant hynny sy'n cael mynediad i'r cynlluniau a'r rhai nad ydynt.

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch nodi hefyd y byddwch yn darparu yn gynnar yn nhymor yr hydref ymateb pendant i'r cwestiwn ynghylch a fyddwch yn ailsefydlu grŵp cynghori rhanddeiliaid ar eiriolaeth. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth hon pan fydd ar gael.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Yn dilyn y sesiwn, mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i gael rhagor o wybodaeth am y meysydd penodol a ganlyn:

**Tlodi plant**

Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor, bydd cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi plant ar lefel Cymru bellach yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol sy'n sail i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, yn ogystal ag adroddiad bob tair blynedd ar y graddau y mae amcanion y Strategaeth Tlodi Plant wedi'u cyflawni, fel sy'n ofynnol gan *Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010*.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Dangosyddion Cenedlaethol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, fel y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol, gwnaethoch gyhoeddi datganiad ysgrifenedig a oedd yn nodi:

> O safbwynt yr ymatebion ynghylch rhoi sylw i fesur llesiant plant, rydym yn derbyn bod hyn yn bwysig i ddeall llesiant cenedlaethau'r dyfodol... Fodd bynnag, mae llawer o'r meysydd llesiant goddrychol yn cael eu mesur yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ac nid yw hwnnw'n ymdrin â phlant. Mater i'r llywodraeth nesaf fydd ystyried opsiynau ar gyfer eu casglu yn y dyfodol**. (17 Mawrth 2016)**

Gan fod Tlodi Plant bellach yn rhan o bortffolio eich Cabinet, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn, er mwyn sicrhau bod y gwaith o gasglu a dadansoddi llesiant goddrychol plant yn sail i'r dull o rymuso cymunedau gwydn.

**Y cynnig gofal plant**

Nododd y Pwyllgor y camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni'r addewid maniffesto sy'n ymwneud â'r cynnig gofal plant yng Nghymru. Fel Pwyllgor rydym yn bwriadu cadw llygad barcud ar y graddau y mae'r gwaith o gyflwyno'r addewid hwn yn effeithio ar flaenoriaethau polisi pwysig eraill ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Cymunedau yn Gyntaf**

Ers ein sesiwn graffu gyffredinol rydych wedi cael yr argymhellion a wnaed yn Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ddysgu'r gwersi o Cymunedau yn Gyntaf. Mae Argymhelliad 1 o'r adroddiad hwnnw yn cyd-fynd â'n trafodaeth yn y Pwyllgor, a oedd yn archwilio sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi parhad y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf mwyaf effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Fel y gwyddoch, mae'r Asesiad o Effaith ar Hawliau'r Plentyn a wnaed yn ystod y broses o wneud penderfyniadau i ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben yn amlygu

bod 207 o'r 647 (32 y cant) o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn 2016-17, yn canolbwyntio'n arbennig ar blant a phobl ifanc. Mae'r Asesiad yn nodi ymhellach er mwyn lleddfu'r effaith yn dilyn y penderfyniad i ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben, y bydd disgwyl i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaethau ymadael a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda hwy ar ddatblygu a chyflwyno'r strategaethau hyn er mwyn cynnal gwasanaethau gwerthfawr, gan gynnwys y rhai ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Os oes tystiolaeth o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf sydd eisoes yn bodoli yn elwa plant a phobl ifanc, cred y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar bob cyfle i sicrhau bod y gweithgarwch yn parhau. Roedd y Pwyllgor yn pryderu o glywed yn eich tystiolaeth y bydd parhad y prosiectau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ar hyn o bryd yn fater i'r awdurdod lleol ymdrin ag ef yn lleol. Rydym yn cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i nodi'r holl raglenni a ddarperir gan Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd ac y dylent gael eu darparu gan gyrff statudol eraill, a bod y cyfrifoldeb am y rhaglenni hynny sy'n llwyddiannus ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gymunedau lleol yn cael ei drosglwyddo i'r corff statudol perthnasol.

Os nad oes darparwr statudol amlwg i ddarparu gwasanaethau, rydym hefyd yn cefnogi argymhelliad 11 o adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, sy'n annog gwneud addasiadau i raglenni perthnasol Llywodraeth Cymru i liniaru yn erbyn canlyniadau anfwriadol o ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar eich ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn y meysydd hynny sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

**Hawliau plant**

Mae'r pwysigrwydd parhaol o ymgorffori a chryfhau hawliau plant ar draws pob polisi a deddfwriaeth y llywodraeth yn parhau i fod yn bryder allweddol i'r Pwyllgor. Nid ydym yn argyhoeddedig o hyd o'r canlynol:

- fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar ei phen ei hun yn ddigon i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i hawliau plant, yn enwedig gan nad yw'n cynnwys dyletswydd gyfreithiol benodol o sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP);
- nid oes angen ymestyn CCUHP i ddeddfwriaeth ddomestig, megis y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) sydd gerbron y Pwyllgor ar hyn o bryd. Fel y nodir yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil (paragraff 282 ac argymhelliad 31), cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol bod CCUHP yn treiddio i lawr drwy bolisïau i'r rhai sy'n gyfrifol am gyflenwi 'ar lawr gwlad', a bod egwyddorion y Confensiwn yn cael eu deall wrth gyflwyno dyletswyddau. Cred y Pwyllgor y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd benodol ar gyrff perthnasol i roi sylw dyledus i'r CCUHP.

Yn ystod ein sesiwn nodwyd eich bod yn agored i ddiwygio deddfwriaeth bresennol pe bai'n cael ei nodi fel mater yn Adroddiad Cydymffurfiad Ionawr 2018 ar y cynllun hawliau plant. Rydym yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y cyswllt hwn unwaith y bydd yr Adroddiad Cydymffurfiad ar gael.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn **dydd Mawrth 12 Medi** i lywio ei waith dros y tymor nesaf. Byddaf yn rhannu copi o'r llythyr hwn gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau o ystyried perthnasedd agweddau penodol i'w bortffolio.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee



**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

24 Gorffennaf 2017

Annwyl Kirsty,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol**

Cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Arweiniad a Hawliadau Ariannol Llywodraeth y DU – a osodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Carl Sargeant AC - ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gynharach y mis hwn er mwyn iddynt ei drafod.

Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg drafodaeth gychwynnol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 20 Gorffennaf gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl - darparu addysg ariannol i blant a phobl ifanc.

Er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer ei adroddiad, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn gofyn am ragor o wybodaeth am y pwyntiau a ganlyn:

- y rhesymau pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Corff Arweiniad Ariannol Sengl, yn hytrach na chorff / sefydliad Cymreig priodol, i fod yn gyfrifol am greu strategaeth i wella darpariaeth addysg ariannol i blant a phobl ifanc yng Nghymru;

- sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn gweithio'n ymarferol gyda'r Corff Canllawiau Ariannol Sengl mewn perthynas â darparu addysg ariannol i blant a phobl ifanc Cymru.

Gan fod y pwyntiau uchod yn ymwneud yn uniongyrchol â'ch portffolio chi, byddai'r Pwyllgor yn falch o gael ymateb gennych erbyn **25 Awst 2017.**


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Byddai hefyd yn croesawu'ch barn am y modd y byddai'r strategaeth ar gyfer y DU gyfan yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu Cwricwlwm newydd Cymru ac, yn benodol, dymuniad y Llywodraeth i osgoi ei ddiwygio bob yn dipyn. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar pe gallech ddweud beth sy'n hysbys ar hyn o bryd am y modd y caiff addysg ariannol ei darparu o dan Gwricwlwm Newydd Cymru.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau Phlant a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau o ystyried eu diddordeb nhw yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-26-17 Papur 7 / Paper 7

**Carl Sargeant AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

24 Gorffennaf 2017

Annwyl Carl,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol**

Fel y gwyddoch, cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Arweiniad a Hawliadau Ariannol Llywodraeth y DU ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gynharach y mis hwn er mwyn iddynt ei drafod.

Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth gychwynnol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 20 Gorffennaf gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl - darparu addysg ariannol i blant a phobl ifanc.

Er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer ei adroddiad, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth fanylach am:

- y rhesymau pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Corff Canllawiau Ariannol Sengl, yn hytrach na chorff / sefydliad Cymreig priodol, i fod yn gyfrifol am greu strategaeth i wella darpariaeth addysg ariannol i blant a phobl ifanc yng Nghymru;

- sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn gweithio'n ymarferol gyda'r Corff Arweiniad Ariannol Sengl mewn perthynas â darparu addysg ariannol i blant a phobl ifanc Cymru.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth uchod erbyn **25 Awst 2017.**


Rwyf hefyd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan fod y mater hwn yn berthnasol i'w phortffolio. Amgaeaf gopi o'r llythyrau hyn er gwybodaeth.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Rwyf wedi anfon copi o’r ddau lythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i helpu’r Pwyllgor hwnnw wrth iddynt drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-26-17 Papur 8 / Paper 8

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

28 Gorffennaf 2017

Annwyl Carl

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

Byddwch yn ymwybodol i'r Pwyllgor Busnes, ar 11 Gorffennaf 2017, gyfeirio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ystyried. Gan fod elfennau o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, cafodd ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Gorffennaf.

Wrth ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch i ofyn am eglurhad ynghylch pam y mae Llywodraeth y DU yn credu bod angen deddfwriaeth ar y mater hwn. Mae'r Pwyllgor hefyd am gael eglurhad ynghylch y graddau y mae'r darpariaethau a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Addysg a Hyfforddiant, Llesiant Cymdeithasol, a datblygu economaidd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn **dydd Llun 11 Medi 2017.**

Yn gywir

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/CS/0483/17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

23 Awst 2017

Annwyl John

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 28 Gorffennaf ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (MCD) yng nghyswllt Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol Llywodraeth y DU (‘y Bil’).

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan bod angen deddfwriaeth ar y mater hwn er mwyn sicrhau bod aelodau’r cyhoedd yn gallu cael gafael ar arweiniad di-dâl a diduedd ar faterion ariannol, pensiynau, a dyledion. Ar hyn o bryd, darperir y rhain gan dri gwasanaeth a ariennir gan y cyhoedd – y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau, a Pension Wise. Yn dilyn cyfres o ymgynghoriadau, daeth Llywodraeth y DU i’r casgliad mai’r ffordd orau o fynd i’r afael â’r mater yw creu Un Corff Arweiniad Ariannol (‘UCAA’) statudol newydd sy’n darparu cyngor mewn un lle, gan anelu at leihau achosion o ddyblygu ac at ddarparu a chomisiynu gwasanaethau penodol i sicrhau bod cynifer o bobl ag y bo modd yn cael arweiniad o ansawdd uchel a diduedd ar faterion ariannol.

Mae angen MCD gan fod y darpariaethau yn Rhan 1 o’r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â phwnc 5: Addysg a Hyfforddiant, pwnc 15: Lles Cymdeithasol, a phwnc 4: Datblygu Economaidd, yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; a hynny gan fod y Bil yn sefydlu’r UCAA, sydd â swyddogaethau o ran arweiniad ym maes pensiynau, cyngor ar ddyledion, arweiniad ariannol, a gallu ariannol strategol i alluogi pobl i gael y cyngor a’r cymorth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus.

Mae’r Bil hefyd yn cynnig y dylai cyllid ar gyfer cyngor ar ddyledion gael ei drosglwyddo i’r Gweinyddiaethau Datganoledig fel y gallant gomisiynu gwasanaethau’n lleol er mwyn helpu unigolion i reoli dyledion. Mae’r cynnig i ddatganoli’r cyllid ar gyfer darparu gwasanaeth cyngor ar ddyledion i’r Gweinyddiaethau Datganoledig i’w groesawu gan y bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull strategol ac integredig o gomisiynu gwasanaethau cyngor dyledion yng Nghymru, ochr yn ochr â meysydd eraill gwasanaethau cynghori ar les cymdeithasol, gan gynnwys tai, budd-daliadau lles, cyflogaeth, a gwahaniaethu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r dull hwn yn gyson hefyd â nodau Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, sy'n annog y broses o ddatblygu model ariannu ar gyfer cyngor ar les cymdeithasol sy'n cyfuno ymyriadau datrys problemau â gweithgareddau sy'n anelu at helpu pobl i ddod yn fwy gwydn o ran atal problemau tebyg rhag ailddigwydd.

O ran arweiniad ar faterion ariannol, mae'r Bil yn nodi y bydd yn cael ei ddarparu gan yr UCAA ar lefel y DU gyfan, ac y bydd dyletswydd ar yr UCAA i weithio'n agos gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i gynrychioli eu buddiannau a'u hanghenion mewn cysylltiad â darparu arweiniad ar faterion ariannol a phensiynau, gan gynnwys comisiynu, dylunio, a darparu gwasanaethau.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ

www.gov.uk/wales
www.gov.uk/cymru

Y Swyddfa Breifat
18 SEP 2017
PO 262
Private Office

Elin Jones AM
Presiding Officer
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ref: 414SUB 17

17th September 2017

Annwyl Elin,

**Wales Act 2017: Principal Appointed Day (PAD)**

Further to you letter of 18 August, I am writing to confirm that I am content for the Principal Appointed Day (PAD) to be the 1 April 2018. I have instructed my officials to proceed on that basis. They will of course work closely with your officials to ensure a smooth transition to the new devolution settlement.

I am copying this letter to the First Minister and have written to him in similar terms.

Yn gywir,

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/CS/0496/17

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

12th Medi 2017

Annwyl Huw

**BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)**

Hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol , am eich ystyriaeth o Fil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) yn ystod proses graffu Cyfnod 1.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus yr argymhellion sydd yn adroddiad y Pwyllgor ac mae fy ymateb i bob un wedi'i nodi isod:

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro ei resymeg yn llawn yn ystod y ddadl Cyfnod 1 dros gyflwyno Bil sy'n diwygio deddfwriaeth bresennol y DU yn hytrach nag un sy'n cydgrynhoi ac sy'n annibynnol.**

Fel yr esboniais yn ystod y ddadl ar 18 Gorffennaf, mae'r Bil yn diddymu'r hawl i brynu, a sefydlwyd yng Nghymru a Lloegr gan ddeddfwriaeth sy'n dyddio'n ôl i 1985. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid iddo ddiwygio deddfwriaeth bresennol Cymru a Lloegr i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru.

Er mwyn cyfuno'r diwygiadau angenrheidiol hyn gyda darpariaeth annibynnol yn y Bil, byddai angen ailddatganiad helaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â'r hawl i brynu am gyfnod dros dro yn unig - a hynny mewn Bil sydd â'r unig ddiben o ddiddymu'r hawl yn hytrach na gwneud darpariaeth amdani. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo hygyrchedd a chydlyniad cyfraith ddwyieithog Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil, sef gosod dyletswydd absoliwt ar Weinidogion Cymru i ddarparu copi i bob landlord cymwys yng Nghymru o'r wybodaeth sydd wedi'i gosod yn adran 8.**

Rwyf wedi ailystyried yr argymhelliad hwn yn dilyn y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol. Fodd bynnag, rwy'n dal i gredu nad oes angen dyletswydd absoliwt gan fod Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o'r holl landlordiaid cymwys yng Nghymru a bydd yn cysylltu â hwy yn unol â hynny.

**Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai'r ddyletswydd gymwys bresennol ar Weinidogion Cymru i ddarparu copi o'r ddogfen wybodaeth i bob landlord cymwys (adran 8(1)(c)) fod ar gyfer landlordiaid y tu allan i Gymru yn unig, ac y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil at y diben hwnnw**

Nid wyf o'r farn y dylid diwygio'r Bil fel bod y ddyletswydd gymwys bresennol i hysbysu landlordiaid ond yn berthnasol i landlordiaid y tu allan i Gymru. Mae'r drafft presennol yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar drydydd parti (yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau) i roi manylion inni am landlordiaid cymdeithasol, sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, sy'n berchen ar gartrefi sy'n cael eu rhentu yng Nghymru.

Fel y soniais yn y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol, cafodd y materion a drafodwyd yn argymhellion 2 a 3 eich Pwyllgor eu hystyried gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n fodlon ar y darpariaethau cyfredol yn y Bil. Nid wyf, felly, yn bwriadu cyflwyno unrhyw welliannau mewn perthynas â'r materion hyn.

**Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Mesur i ddileu'r geiriau "neu'n hwylus" yn adran 9.**

Mae Adran 9 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati os ydynt o'r farn ei fod yn "angenrheidiol neu'n hwylus" i wneud hynny o ganlyniad i'r ddarpariaeth a wneir gan y Bil, neu a wneir o dan y Bil. Mae gan y gair "hwylus" ei ystyr ei hun ac mae'n caniatáu ar gyfer gwelliannau a allai fod yn ddymunol, yn ddefnyddiol neu sydd â budd ymarferol, ond a allai fethu prawf "anghenraid" llym. Er enghraifft, pe bai pŵer i wneud gwelliannau canlyniadol yn cael ei ddefnyddio i symleiddio trefn weinyddol a oedd yn anodd ei rhoi ar waith, neu'n anymarferol i denantiaid ddelio â hi, gellir dadlau nad oedd hyn yn bodloni'r prawf "anghenraid", gan y gallai tenantiaid fyw gyda'r anhawster, er bod hynny'n annymunol. Byddai'r dull hwn yn rhy anhyblyg a chyfyngedig a gallai atal newidiadau buddiol rhag cael eu gwneud.

Nid wyf, felly, yn bwriadu cyflwyno unrhyw welliant mewn perthynas â'r mater hwn.

**Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau eglurder nad yw adran 10(1) ond yn gymwys i'r pŵer creu rheoliadau yn adran 9.**

Credaf y byddai'r gwelliant, a argymhellir gan y Pwyllgor, yn egluro cwmpas y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 10(1) ac yn gwella'r Bil o ganlyniad. Rwy'n ddiolchgar am argymhelliad y Pwyllgor ar y mater hwn a byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ddileu unrhyw amwysedd ynghylch geiriad adran 10(1).

I gloi, rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn ddefnyddiol o ran amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor a hoffwn ailadrodd fy niolch i'r Aelodau am eu hystyriaeth fanwl o'r Bil.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/CS/0496/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

12 Medi 2017

Annwyl Simon

**BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)**

Hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr ar y Pwyllgor Cyllid am eich ystyriaeth o Fil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) yn ystod proses graffu Cyfnod 1.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus y safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad a byddaf yn cyhoeddi'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl cwblhau Cyfnod 2. Byddaf yn sicrhau bod copi o'r Memorandwm diwygiedig yn cael ei anfon at y Pwyllgor.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon